wavehill™

social and economic research

ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Dadansoddiad o'r Ymgysylltu â'r Gymuned

Mawrth 2021

Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd

Awduron yr adroddiad:

Llorenc O'Prey, Andy Parkinson, Sarah Usher, Sam Grunhut, Dyfan Powell, ac Anna Burgess

Cyfieithwyd gan Iwan Rhys

Mawrth 2021

Fersiwn: TERFYNOL

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2-4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, London, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711
E-bost: wavehill@wavehill.com
Twitter: @wavehilltweets
Gwefan: www.wavehill.com

Dylai unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r adroddiad hwn gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Llorenc O'Prey (llorenc.oprey@wavehill.com)

Cyswllt Llywodraeth Cymru: Hannah Fisher, Hannah.fisher@gov.wales

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol 1
1 Cyflwyniad 4
2 Themâu Trosfwaol 7
3 Y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth 18
4 Troseddu a Chyfiawnder 22
5 Addysg 25
6 Cyflogaeth ac Incwm 30
7 Iechyd a Gofal Cymdeithasol 36
8 Tai a Llety 43
9 Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth 47
10 Casgliadau 49
Atodiad 1: Ymatebion 52

Crynodeb Gweithredol

I sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn seiliedig ar brofiad go iawn o hiliaeth a gwahaniaethu, cynigiodd Llywodraeth Cymru gynllun grant tuag at ddiwedd 2020 i grwpiau cymunedol bach a mudiadau seiliedig ar hil. Roeddynt yn cynnal ymarferiadau ymgysylltu â'r gymuned gyda phobl o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, gan gynnwys pobl o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a hynny ledled Cymru. Ymgysylltodd derbynwyr y grant â bron i 2000 o bobl gan grynhoi eu canfyddiadau mewn ymatebion ysgrifenedig a fideo.

Nod y gwaith ymgysylltu â'r gymuned oedd ymestyn i mewn i gymunedau i sicrhau bod lleisiau unigolion Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn arwain ac yn llywio datblygiad y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Nod y Cynllun Gweithredu yw cyflwyno ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu Cymru wrth-hiliol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'r themâu a'r materion a godwyd ar draws pob un o'r 23 o ymatebion a ddarparwyd drwy'r ymarferiad ymgysylltu â'r gymuned.

Hiliaeth a Gwahaniaethu

Gan ystyried y profiadau go iawn a ddisgrifir ac a amlinellir yn bwerus yn yr ymatebion, yr hyn sy'n drawiadol am hiliaeth a gwahaniaethu yng Nghymru yw bod **llawer o bobl yn eu profi yn rheolaidd** ar draws gwahanol agweddau ar eu bywydau. Mewn sgyrsiau gyda phobl a chymunedau, mae'r ymatebion yn tynnu sylw at amrywiaeth enfawr o ffyrdd y gall gwahaniaethu hiliol weithredu, a'r effaith y gall ei chael. Mae hyn yn cynnwys achosion neu sefyllfaoedd penodol iawn sy'n effeithio ar bobl neu gymunedau penodol, yn ogystal â thueddiadau trosfwaol sy'n ffurfio anghydraddoldebau yn fwy cyffredinol.

Canfyddiad allweddol yw'r **amrywiaeth o wahanol wahaniaethu hiliol** mae pobl yn eu profi wrth ryngweithio o ddydd i ddydd ar draws gwahanol agweddau ar eu bywydau, gan gynnwys wrth ymgysylltu a chyfranogi yn y gymdeithas, defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, a chael gwrandawiad i'w llais. Roedd hyn yn cynnwys gwahaniaethu hiliol agored a chudd, o elyniaeth lafar eglur hyd at ficro-ymosodiadau. Roedd yr ymatebion hefyd yn tynnu sylw at brofiadau o wahaniaethu ystadegol, proffilio a hiliaeth sefydliadol sy'n ffurfio rhyngweithiadau yn y gymuned, yn y gwaith, ac wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus.

Gyda'i gilydd, gall y gwahaniaethu hiliol mae pobl yn ei brofi **arwain at ganlyniadau difrifol**. Disgrifiodd yr ymatebion achosion lle roedd hiliaeth a gwahaniaethu wedi distewi pobl, creu amgylcheddau gelyniaethus, cynyddu ynysigrwydd cymdeithasol a thanseilio llesiant. Thema allweddol a redai drwy'r ymatebion oedd yr effaith drawmatig y gall hiliaeth a gwahaniaethu gael ar synnwyr pobl o hunan-werth a'u hiechyd meddwl. Roedd yr ymatebion hefyd yn disgrifio effeithiau cymhlethol hiliaeth a gwahaniaethu, gan gynnwys wrth gael mynediad at gyflogaeth a parhau mewn cyflogaeth, cynnal anghydraddoldebau o ran cyfleoedd a chanlyniadau, ac mewn perthynas â symudedd cymdeithasol.

Themâu Allweddol

Roedd yr ymatebion hefyd yn disgrifio profiadau a safbwyntiau a godwyd gan bobl a chymunedau yn y meysydd polisi y mae'r Cynllun Gweithredu yn canolbwyntio arnynt, gan gynnwys addysg, cyflogaeth ac incwm, ac iechyd a gofal cymdeithasol, ymysg eraill.

Yn ogystal â'r hiliaeth a'r gwahaniaethu mae pobl a chymunedau yn eu profi oddi mewn i sefyllfaoedd a meysydd polisi penodol, roedd yr ymatebion hefyd yn tynnu sylw at y **diffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol**, mewn rhyngweithiadau unigol, ac ar lefel sefydliadol. Disgrifiodd yr ymatebion achosion o bobl yn cael eu trin mewn ffyrdd nad oedd yn sensitif i'w hanghenion, credoau diwylliannol, neu draddodiadau.

Gyda'i gilydd, mae'r hiliaeth, y gwahaniaethu a'r ansensitifrwydd diwylliannol a'r diffyg derbyniad mae pobl yn eu profi yn **tanseilio ymddiriedaeth ac ymgysylltiad** pobl a chymunedau, yn arbennig mewn perthynas â gwasanaethau a chymorth a ddarperir drwy sefydliadau cyhoeddus. Roedd y mater hwn yn cael ei gymhlethu gan y **diffyg llais** mae pobl yn teimlo sydd ganddynt, mewn prosesau democrataidd ehangach ar lefel leol a chenedlaethol, yn ogystal ag o ran dylunio a llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus.

Thema drosfwaol allweddol arall yw **diffyg deialog a chyfathrebu effeithiol ac ystyrlon** rhwng pobl a chymunedau a sefydliadau a mudiadau, cyhoeddus a phreifat. Roedd hefyd ymdeimlad cyffredinol o **rwystredigaeth gydag ymdrechion i fynd i'r afael â hiliaeth ac anghydraddoldebau ehangach**, wrth i rai dynnu sylw at brinder cynnydd ar faterion megis amrywiaeth, cynrychiolaeth ac anghydraddoldebau parhaus yn ymwneud â chyfleoedd a chanlyniadau. Roedd hyn yn tanseilio ymhellach ymddiriedaeth mewn sefydliadau i gyflawni newid go iawn ac yn creu rhwystr i sicrhau bod pobl a chymunedau'n ymgysylltu'n gadarnhaol.

Roedd yr ymatebion hefyd yn nodi bod yr heriau a'r rhwystrau a gyflwynir gan hiliaeth a gwahaniaethu **yn cael eu cymhlethu gan ffactorau eraill**, gan gynnwys rhywedd person, ble maent yn byw, a'u statws economaidd-gymdeithasol. Nododd rhieni, a mamau yn arbennig, er enghraifft, eu bod yn profi heriau penodol sy'n effeithio ar eu gallu i gyfranogi mewn cymdeithas, yn arbennig mewn perthynas â chael mynediad at waith, sy'n cymhlethu'r rhwystrau maent wedi'u profi oherwydd eu hil neu ethnigrwydd.

Roedd yr ymatebion hefyd yn codi themâu neu faterion a effeithiai **ar bobl a chymunedau penodol neu brif feysydd polisi.** Profiad cyffredin a nodwyd ar draws ymatebion, er enghraifft, oedd yr hiliaeth a'r gwahaniaethu agored mae plant a phobl ifanc o lawer o gefndiroedd gwahanol yn eu profi yn yr ysgol neu mewn lleoliadau addysg eraill. I bobl a theuluoedd lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ail ieithoedd, thema gyffredin oedd y rhwystrau iaith a brofant a oedd yn eu rhwystro rhag ymgysylltu'n llawn yn y gymdeithas. Caiff y themâu a'r materion yma, ac eraill, eu harchwilio'n fanylach drwy'r adroddiad hwn.

Casgliadau

Roedd llawer o'r ymatebion **yn tynnu sylw at awgrymiadau ac argymhellion ymarferol** ar sut y gallai'r Cynllun Gweithredu ac asiantaethau'r llywodraeth yn ehangach fynd i'r afael â

hiliaeth ac anghydraddoldebau ar draws y gymdeithas yng Nghymru. Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio dyblygu'r argymhellion hyn am ein bod yn deall bod y rhain wedi'u hystyried wrth i'r Cynllun ddatblygu. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio tynnu sylw at themâu allweddol sy'n codi ar draws dadansoddiad cyfunol o'r holl waith ymgysylltu â'r gymuned, sy'n cynnwys gwella cyfathrebu, ymgysylltu a chyfranogi, gwella tryloywder prosesau penderfynu, a mynd ati'n weithredol i sicrhau mwy o newid go iawn i fywydau pobl. Roedd ffocws yn yr argymhellion hefyd ar bwysigrwydd addysg, wrth ddathlu a chydnabod amrywiaeth, mynd i'r afael â hiliaeth a gwahaniaethu, a gwella'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

1 Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2020, ymrwymodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru. Cyflymwyd y gwaith ar y cynllun hwn wrth i effaith anghyfartal pandemig COVID-19 ar bobl Dduon, Asiaidd Lleiafrifoedd Ethnig ddod yn amlycach. Nod datblygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yw cyflwyno ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau safbwynt gwrth-hiliol a gwneud y newidiadau gofynnol i gyflawni cydraddoldeb hiliol yng Nghymru. Bydd yn cyflwyno gweledigaeth, gwerthoedd a bwriadau Llywodraeth Cymru, a'r camau ymarferol y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol.

Rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2020, gweinyddodd Llywodraeth Cymru grant tymor byr i ariannu gwaith ymgysylltu uniongyrchol â chymunedau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ledled Cymru i alluogi i rannu profiadau go iawn â Llywodraeth Cymru. Diben y grant oedd sicrhau bod dealltwriaeth, barn, profiadau a phryderon yn cael eu casglu ac yn cael eu hadlewyrchu yn natblygiad y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru.

Mewn cydweithrediad â grwpiau cymunedol a mudiadau llawr gwlad, roedd gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall sut mae gwahanol ffurfiau ar hiliaeth a gwahaniaethu, gan gynnwys hiliaeth strwythurol a systematig, yn effeithio ar fywydau pobl. Mae'r mudiadau hyn yn cynrychioli a chynorthwyo amrywiaeth eang o gymunedau ledled Cymru, gan gynnwys pobl sy'n ystyried eu hunain yn Ddu neu Asiaidd, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a ffoaduriaid Syriaidd, ymysg eraill.

Ceisiodd y grwpiau a'r mudiadau ddeall a chyfathrebu profiadau a safbwyntiau drwy gyfrwng amrywiaeth o leisiau oddi mewn i bob cymuned. Gwnaeth cyfanswm o 24 o fudiadau a grwpiau o bob rhan o Gymru gymryd rhan (gyda 3 ohonynt yn darparu ymateb ar y cyd), gan ddarparu cyflwyniadau ysgrifenedig ac ymatebion fideo, a phob un yn amlinellu'r materion penodol sy'n wynebu'r gymuned y mae'n ei chynrychioli. Ymgysylltwyd ag ychydig yn llai na 2,000 o unigolion ar draws y grwpiau. Mae crynodeb o'r mudiadau a'r grwpiau a gyfrannodd ymatebion, a'r cymunedau y maent yn gweithio gyda hwy, yn Atodiad yr adroddiad hwn.

I gynorthwyo datblygiad y Cynllun Gweithredu, aeth Llywodraeth Cymru ati i archwilio'r materion a'r themâu a nodwyd yn yr ymatebion ac ar draws yr ymatebion. Comisiynwyd Wavehill, fel sefydliad ymchwil annibynnol, gan Lywodraeth Cymru i baratoi adroddiad trosfwaol ar y materion a'r themâu sydd wedi'u cynnwys ar draws y cyflwyniadau ysgrifenedig a fideo. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r dadansoddiad hwn. Nod adrannau dilynol yr adroddiad yw cynorthwyo dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r themâu a godwyd ar draws ymatebion, ac ysgogi trafodaeth a syniadau ar sut y gallai'r Cynllun Gweithredu ymateb i leisiau, blaenoriaethau, a phrofiadau go iawn cymunedau ledled Cymru. Oddi mewn i'r Cynllun Gweithredu, mae llawer o'r dyfyniadau a'r dadansoddiad o brofiad go iawn wedi'u darparu gan yr adroddiadau a luniwyd dan arweiniad y gymuned.

Dull Gweithredu

I wneud synnwyr o'r safbwyntiau a'r materion a godwyd ar draws yr ymatebion, cynhaliodd y tîm adolygu yn Wavehill ddadansoddiad thematig. Roedd y dull gweithredu hwn yn cynnwys archwilio pob cyflwyniad yn systematig, gan dynnu sylw at y themâu, materion a phrofiadau allweddol y maent yn eu codi. Mapiwyd y rhain wedyn yn erbyn y meysydd polisi a nodir gan y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, gan gynnwys:

- y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth;
- troseddau a chyfiawnder;
- addysg;
- cyflogaeth ac incwm;
- iechyd a gofal cymdeithasol;
- tai a llety;
- arweinyddiaeth a chynrychiolaeth.

Ffocws allweddol yn y dadansoddiad oedd deall sut mae hil ac ethnigrwydd yn ffurfio a llywio profiadau go iawn pobl a chymunedau ledled Cymru. Roedd y dadansoddiad hefyd yn ceisio deall yr effaith y gall anghydraddoldeb, gwahaniaethu, a hiliaeth gael ar bobl, gan gynnwys wrth ffurfio canlyniadau andwyol. Roedd y dadansoddiad, felly, yn ceisio deall profiadau a chanlyniadau y tynnwyd sylw atynt yn yr ymatebion.

O safbwynt dadansoddol, mae'r ffocws ar brofiadau go iawn a chanfyddiadau yn bwysig er mwyn deall sut gall anghydraddoldeb, gwahaniaethu a hiliaeth effeithio ar wahanol gymunedau. Gall hefyd helpu i daflu goleuni ar rôl a deinameg rhyngblethedd,[1] gan gynnwys y ffyrdd mae hil ac ethnigrwydd yn rhyngblethu â ffactorau eraill megis statws economaidd-gymdeithasol, rhywedd, ac anabledd wrth ffurfio profiadau a chanlyniadau. O'r safbwynt hwn, deallir bod hil yn amlddimensiynol ei natur ac y caiff ei ffurfio gan gyd-destun, cysylltiadau cymdeithasol ac o fewn cymdeithas, ac mewn deinameg sefydliadol.

Mewn perthynas â ffurfio polisi, gall y dull gweithredu hwn daflu goleuni ar y ffyrdd y gall polisïau, rheoleiddio, a gwasanaethau cyhoeddus greu neu gynnal anghydraddoldebau hiliol. Mae profiadau go iawn, fel y rhai a gyfathrebwyd yn bwerus drwy'r ymatebion, yn bwysig wrth ystyried rôl a photensial polisi llywodraeth i gynorthwyo mwy o degwch hiliol. Mae'r dadansoddiad hwn yn rhoi sylw i farn a safbwyntiau cymunedau wrth ystyried goblygiadau profiadau go iawn o wahaniaethu ac anghydraddoldeb hiliol yn natblygiad y Cynllun Gweithredu.

Strwythur yr Adroddiad Hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cyfathrebu canfyddiadau'r dadansoddiad. Yn gyntaf, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at themâu a safbwyntiau trosfwaol a godwyd ar draws yr ymatebion. Mae'r adroddiad wedyn yn mynd ymlaen i archwilio'r themâu yn y modd y maent yn

[1] Fframwaith dadansoddol yw rhyngblethedd ar gyfer deall sut mae agweddau ar hunaniaethau cymdeithasol a gwleidyddol rhywun yn cyfuno i greu gwahanol ddulliau o wahaniaethu a braint. Enghreifftiau o'r agweddau hyn yw rhywedd, rhyw, hil, ethnigrwydd, dosbarth, rhywioldeb, crefydd, a/neu anabledd.

berthnasol i'r prif feysydd polisi a nodir yn y Cynllun Gweithredu. Wrth gasglu, mae'r adroddiad yn ystyried rhai o oblygiadau'r dadansoddiad i ddatblygiad y Cynllun Gweithredu, gan gynnwys meysydd sy'n teilyngu eu harchwilio ac ymchwilio iddynt ymhellach.

2 Themâu Trosfwaol

Gan ystyried y profiadau go iawn a ddisgrifir ac a amlinellir yn bwerus yn yr ymatebion, yr hyn sy'n drawiadol am hiliaeth a gwahaniaethu yng Nghymru yw bod llawer o bobl yn eu profi yn rheolaidd ar draws gwahanol agweddau ar eu bywydau. Mewn sgyrsiau gyda phobl a chymunedau, mae'r ymatebion yn tynnu sylw at amrywiaeth enfawr o ffyrdd y gall gwahaniaethu hiliol weithredu, a'r effaith y gall ei chael ar bobl. Mae hyn yn cynnwys achosion neu sefyllfaoedd penodol iawn sy'n effeithio ar bobl neu gymunedau penodol, yn ogystal â thueddiadau trosfwaol sy'n ffurfio anghydraddoldebau yn fwy cyffredinol.

Tynnwyd sylw at sawl thema drosfwaol yn yr ymatebion. Er eu bod yn rhyng-gysylltiedig, nid yw'r themâu yma'n ymwneud yn benodol â maes polisi penodol, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Gweithredu megis addysg neu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r themâu yma yn ffurfio profiadau pob dydd pobl, gan gynnwys ymgysylltu a chyfranogi yn y gymdeithas, defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, a meddu ar lais.

2.1 Hiliaeth a Gwahaniaethu

Roedd yr ymatebion yn disgrifio profiadau o wynebu gwahaniaethu hiliol, pan fo rhywun yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu hil neu ethnigrwydd mewn ffyrdd sy'n anfanteisiol iddynt. Mae hyn yn cynnwys ymddygiad hiliol bwriadol ac eglur, megis gelyniaeth lafar ar ffurf sarhad hiliol a sylwadau hiliol difrïol:

> *Drwy ymgysylltu â'r gymuned, rhoddwyd enghreifftiau o blant yn cael eu bwlio yn yr ysgol ar sail eu hil a'u crefydd. Dwedwyd y câi plant eu gwneud i deimlo'n ddigroeso a bod rhai'n dweud wrthynt am ddychwelyd i wlad eu gwreiddiau. Nododd rhieni hefyd (o gefndiroedd Syriaidd a Tsieineaidd) bod eu plant yn amharod i siarad Saesneg am eu bod yn dal i ddysgu'r iaith ac addasu i'r acen, gan iddo arwain at fwlio. Rhoddwyd enghraifft hefyd o blant yn taflu cerrig at eiddo lle roedd teulu o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig yn byw...*
>
> **Cymdeithas Gymunedol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Castell-nedd Port Talbot**

Caiff effaith y fath ffurfiau ar hiliaeth a gwahaniaethu ei hamlinellu'n glir yn yr ymatebion. Gall hiliaeth greu gofodau gelyniaethus – yn yr ysgol, yn y gymuned neu yn y gwaith – lle gall rhywun deimlo'n ddigroeso ac wedi'u hallgáu. Mewn rhai achosion, fel a amlinellir yn yr enghraifft uchod, gall effeithiau allgáu yn sgil hiliaeth a gwahaniaethu arwain at ddistewi pobl. Mae rhai ymatebion yn awgrymu bod hiliaeth eglur yn dod yn fwy cyffredin, megis i gymunedau Mwslimaidd ledled Cymru.

Nid yw agweddau rhagfarnllyd bob amser yn arwain at ymddygiad ymosodol agored megis gelyniaeth lafar. Cyfeiriodd yr ymatebion hefyd at brofiadau o ffurfiau cynnil, llechwraidd neu awtomatig ar hiliaeth a gwahaniaethu. Y canlyniad yw ffurfiau cynnil ar hiliaeth sy'n anuniongyrchol, awtomatig a chudd. Mae'r rhain yn cynnwys micro-ymosodiadau, cyfres o ddatganiadau, gweithredoedd, neu ddigwyddiadau sy'n cael eu hystyried yn achos o wahaniaethu anuniongyrchol, cynnil, neu anfwriadol tuag at rywun o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig. Gyda'i gilydd, gall hiliaeth a gwahaniaethu cudd a chyson, gan gynnwys

micro-ymosodiadau, amlygu'u hunain mewn amrywiaeth o ffyrdd sy'n ffurfio profiad pobl dros amser:

> *Roedd eraill yn profi hiliaeth a gwahaniaethu strwythurol: "Rwyf wedi wynebu micro-ymosodiadau yn y gwaith ac wedi cael fy nhrin yn wahanol i fy nghydweithwyr" … "Roedden nhw'n dweud fy mod yn rhy hyderus ac yn gofyn gormod o gwestiynau. Ond roedd yn amlwg am fy mod yn ddu". Cafwyd rhai adroddiadau o gyflogau'n annigonol a chyfranogwyr yn gwneud gwaith y tu hwnt i'w dyletswyddau. "Nid yw'r cyflog yn briodol i'r llwyth gwaith", "Mae swyddi sy'n talu'n dda yn anodd iawn i'w cael os ydych chi'n BAME, diffyg cyfleoedd", "Rwyf i wedi cael fy nhrin yn deg ond nid yw'r cyflogau bob amser yn briodol i'r swydd rwy'n ei gwneud".*
>
> **Fforwm Ieuenctid BAME Cenedlaethol**

O ganlyniad i'r natur gynnil a chudd sydd i ficro-ymosodiadau, nododd rhai ymatebwyr fod y ffurfiau hyn ar hiliaeth a gwahaniaethu yn anodd i'w profi. Gall yr effaith fod yn ddifrifol, serch hynny, a nododd yr ymatebwyr y gallant achosi trawma ac atgyfnerthu canfyddiadau o gael eich allgáu o gymdeithas, ac effeithio'n negyddol hefyd ar hunan-werth a llesiant rhywun. Nododd aelodau'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, er enghraifft, nad oeddynt yn cael eu gwerthfawrogi:

> *Rwy'n teimlo ein bod yn cael ein derbyn ond nid bob amser yn cael ein gwerthfawrogi fel cymuned am fod gwahaniaethau yn dal i fod ledled Cymru gyfan.*
>
> **TGP Cymru**

Dwedwyd bod ffurfiau agored a chudd ar hiliaeth a gwahaniaethu yn cael effeithiau negyddol ar bob person a chymuned sydd wedi'u cynrychioli yn yr ymatebion, gan gynnwys cymunedau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Ar draws yr ymatebion, roedd hiliaeth yn effeithio ar allu pobl i gyfranogi'n ystyrlon yn y gymdeithas, gan gynnwys yn y gymuned, yn y gwaith, ac mewn lleoliadau addysg. Roedd yr ymatebion hefyd yn tynnu sylw'n gyson at effaith hiliaeth a gwahaniaethu ar lesiant yr unigolyn, yn arbennig mewn perthynas a chael eu hynysu'n gymdeithasol a'u hiechyd meddwl:

> *Roedd gweithio mewn cymuned o bobl wyn yn brofiad heriol iawn; enghraifft o hyn oedd pan oeddwn i allan yn y gymuned gyda pherson ifanc yn cerdded ar y stryd. Dechreuodd y fenyw yma daflu cerrig ataf o'r ffenestr. Hysbyswyd yr heddlu, a'r cwmni'r oeddwn i'n gweithio iddo. Roedd y person ifanc wedi'i frawychu gan yr hyn ddigwyddodd. Roeddwn innau'n teimlo embaras; roedd yn anodd iawn ymdrin â'r peth am mai fi oedd yr unig fenyw ddu ifanc a doedd dim cymorth. Doedd dim cymorth parhaus... ar ôl iddo ddigwydd doedd dim trafodaeth am fy symud i ardal arall na'r effaith gafodd arnaf i'n feddyliol.*
>
> **Women Connect First, Ymddiriedolaeth Menywod Hayaat a Sefydliad Henna**

2.2 Deall Hil ac Ethnigrwydd

Roedd sut rydym, ar y cyd, yn deall a siarad am hil ac ethnigrwydd hefyd yn thema bwysig a gododd ar draws yr ymatebion. Roedd hyn yn cynnwys portreadau negyddol yn y cyfryngau o hil ac ethnigrwydd, gan gynnwys yn y cyfryngau print, darlledu a chymdeithasol. Roedd pryder a dicter ynglŷn â'r iaith a'r stereoteipiau a ddefnyddir i ddisgrifio cefndiroedd pobl neu'u hunaniaethau crefyddol:

> *Na, dydyn ni ddim wedi gweld unrhyw adroddiadau newyddion da yn y papurau ar wahân i'r rhai'n ymwneud â phersonoliaethau chwaraeon. Cawn ein dangos fel pobl ddrwg bob amser, ond dydyn ni ddim. Mae'n bryd i ni gael ein dangos fel pobl dda.*
>
> *Rwy'n cadw draw o Facebook a gwefannau eraill oherwydd unwaith y clywch chi am Deithwyr eraill rydych chi'n gwybod y bydd Facebook yn llawn o bethau hiliol.*
>
> **TGP Cymru**

Nodwedd allweddol ar y thema hon oedd cyfyngiadau systemau dosbarthu o ran deall hunaniaeth a phrofiad a myfyrio arnynt. O'r safbwyntiau hyn, mae'r defnydd o ddiffiniadau rhagnodol, gan gynnwys Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), yn cyfyngu ar gymunedau ac ar hunan-fynegiant:

> *Mae pobl sydd â nodweddion gwarchodedig (hil) wedi dweud yn aml nad yw'r acronym 'BAME' yn disgrifio eu hunaniaeth ethnig.*
>
> **Mae Bywydau Du o Bwys**

Roedd pryderon nad oedd termau megis BAME yn adlewyrchu amrywiaeth profiad, gan gynnwys gwahanol ethnigrwydd, hunaniaethau, a chrefyddau, ond hefyd fel unigolion oddi mewn i gymunedau. O'r safbwyntiau yma, nid yw hil ac ethnigrwydd yn unffurf na monolithig; maent yn amrywiol ac amlweddog. Prin yw'r cyfle y mae dosbarthiadau megis BAME yn ei roi i uniaethu'n fwy penodol â threftadaeth hynafiadol neu ddiwylliannol rhywun:

> *Pan wnaeth fy mab ddechrau yn yr ysgol uwchradd, dyma nhw'n gofyn am ei ethnigrwydd, ond doedd yna ddim 'Pacistanaidd Prydeinig'. Yn yr ysgol uwchradd, mae'n teimlo ein bod wedi ein trin yn wahanol er imi gael fy ngeni ym Mhrydain.*
>
> **Women Connect First, Ymddiriedolaeth Menywod Hayaat a Sefydliad Henna**

Mynegwyd pryderon hefyd y gallai dosbarthiadau a diffiniadau sefydledig o ethnigrwydd hefyd wreiddio neu barhau â ffurfiau cynilach o hiliaeth a gwahaniaethu. O'r safbwyntiau hyn, teimlwyd y gallai dosbarthiadau megis BAME arwain at ganlyniadau hiliol a gwahaniaethol andwyol ar ffurf proffilio neu wahaniaethu ystadegol. Mae hyn yn golygu pan y caiff ei dybio bod nodweddion canfyddiadol am grŵp yn berthnasol i unigolyn:

Gwaredwch y ffurflen monitro cyfle cyfartal. Gall ysgrifennu eich enw, a datgan eich ethnigrwydd, effeithio'n negyddol ar recriwtio.

Race Council Cymru (Abertawe)

Ar lefel sefydliadol, gall proffilio a gwahaniaethu ystadegol arwain at ymatebion ansensitif sy'n cyfuno materion sy'n effeithio ar bobl neu gymunedau penodol. Nododd rhai adroddiadau y gall categoreiddio rhagnodol megis 'BAME' greu atebion gor-syml a allai fod yn amhriodol neu'n aneffeithiol wrth fynd i'r afael â phob ffurf ar wahaniaethu ac anghydraddoldeb.

Gan gydnabod y cyfyngiadau sydd i ddosbarthiadau cyffredinol a rhagnodol, awgrymodd rhai ymatebion y gallai ymagweddau mwy agored a sensitif at ddeall ethnigrwydd fod yn werthfawr. O'r safbwyntiau hyn, roedd yn bwysig caniatáu i bobl nodi eu hunaniaeth eu hunain oddi mewn i ymbarél trosfwaol o nodweddion gwarchodedig ac osgoi'r dosbarthiad 'arall':

Nodwyd bod ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i hunan-ddiffinio eu hethnigrwydd yn ôl sut roedden nhw'n teimlo, yn hytrach na defnyddio categorïau sydd fel arfer yn cael eu cyflwyno mewn ffurflenni monitro safonol.

Race Council Cymru (Gorllewin Cymru)

2.3 Hiliaeth Sefydliadol

Ffurf arall ar wahaniaethu a ddisgrifiwyd ar draws yr ymatebion oedd hiliaeth sefydliadol. Mae hiliaeth sefydliadol yn golygu triniaeth anghyfartal ar sail hil ac ethnigrwydd sy'n codi o systemau, strwythurau, neu ddisgwyliadau a ddaeth yn sefydledig mewn sefydliad neu fudiad. Gall hyn gynnwys y ffyrdd mae rhagfarnau'n cael eu cyfundrefnu mewn polisïau ac yn ffurfio arfer bob dydd, yn benodol y ffyrdd y caiff pobl o gymunedau neu gefndiroedd penodol eu trin. Mae hiliaeth sefydliadol hefyd yn amlygu'i hun ar ffurf anghydraddoldeb o ran cyfleoedd a chanlyniadau, sef y driniaeth wahaniaethol o unigolion a grwpiau penodol sy'n arwain at ganlyniadau gwahaniaethol, yn aml yn andwyol, i bobl o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Enghraifft a nodwyd ar draws sawl ymateb oedd rôl mecanweithiau disgyblu mewn lleoliadau addysg a all arwain at lefelau anghyfartal o waharddiadau ysgol, yn benodol ymysg plant a phobl ifanc Ddu. Oddi mewn i'r ymatebion, nid oedd y term hiliaeth sefydliadol bob amser yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio achosion neu brofiadau o wahaniaethu systematig. Roedd yr ymatebion yn aml yn disgrifio effeithiau cronnus rhyngweithiadau cyson lle'r oeddynt yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn wahanol i'r gymuned ehangach:

Meddai llawer o bobl ifanc nad yw'r athrawon, staff a llywodraethwyr yn gwrando arnynt yn yr ysgol. Roeddynt yn teimlo eu bod yn cael eu gwrthod a'u hanwybyddu yn yr ysgol, ac nad ydynt wedi derbyn y gwasanaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

Diverse Cymru

Mae'n hysbys iawn bod myfyrwyr Du yn nodi profiadau o gael eu cosbi am steil eu gwallt, a mynegiadau diwylliannol o rwystredigaeth (h.y. cusanu'r dannedd), a'u bod yn cael eu gwahardd ar lefelau anghyfartal ac yn academaidd yn derbyn graddau llawer is na'u cymheiriaid gwyn.

Mae Bywydau Du o Bwys

2.4 Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol

Yn gysylltiedig â themâu ynghylch y ffurfiau gwahanol o wahaniaethu mae pobl yn eu profi, cyfeiriodd yr ymatebion yn rheolaidd at ddiffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac ansensitifrwydd wrth ryngweithio yn y gwaith ac yn y gymuned, ond yn arbennig wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus. Mae ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn golygu gwybodaeth am ddiwylliannau amrywiol a hunaniaethau diwylliannol, ymwybyddiaeth ohonynt, a'u derbyn.

Roedd yr ymatebion yn disgrifio achosion pan roedd pobl wedi'u trin mewn ffyrdd a oedd yn ansensitif i'w hanghenion, credoau diwylliannol, neu draddodiadau penodol. Roedd achosion hefyd lle'r oedd y cymorth a'r cyngor a gynigwyd yn anghydnaws ag arferion diwylliannol neu ddysgeidiaeth grefyddol penodol, neu'n ddiwylliannol ansensitif. Mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, er enghraifft, gallai materion ynghylch ymwybyddiaeth ddiwylliannol gwmpasu'r gofal a'r sylw a gynigwyd:

Dwedwyd wrthym bod rhai wedi profi gofal personol diffygiol – "Mae gwallt Affro fel arfer yn cael ei dorri'n fyr hyd at foel gan na all aelodau staff gwyn ofalu amdano".

Race Council Cymru (Caerdydd a'r Fro)

Roedd mater ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn cwmpasu sawl maes polisi, gan gynnwys ym maes addysg ac iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hefyd yn cwmpasu'r ffordd y caiff polisi a chymorth eu trefnu, megis diffyg tai fforddiadwy i deuluoedd amlgenhedlaeth. Er nad oedd y profiadau a nodwyd yn yr ymatebion bob amser yn disgrifio achosion o wahaniaethu eglur neu anymwybodol, roedd ansensitifrwydd diwylliannol yn arwain at danseilio ymddiriedaeth ac ymgysylltiad â gwasanaethau a chymorth ymysg rhai pobl a chymunedau penodol:

Mae llawer o fenywod na fyddai eisiau gweld meddyg sy'n wryw, ac mae hyn yn ei gwneud yn anoddach cael apwyntiadau.

TGP Cymru

2.5 Ymddiriedaeth ac Ymgysylltu

O'u cyfuno, mae'r gwahaniaethu a'r ansensitifrwydd diwylliannol mae pobl yn eu profi yn eu rhyngweithiadau dydd i ddydd yn tanseilio ymddiriedaeth ac ymgysylltiad, yn arbennig o ran gwasanaethau a chymorth a gyflawnir drwy sefydliadau cyhoeddus. O'r safbwyntiau hyn, roedd profiadau cronnus a negyddol o wahaniaethu yn tanseilio hyder pobl yng ngallu

gwasanaethau cyhoeddus i ymateb i'w hanghenion. Roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at ddrwgdybiaeth gyffredinol o sefydliadau penodol, megis yr heddlu:

> *Dylai'r heddlu ymwneud â mudiadau llawr gwlad, ar lefel gymdeithasol, i chwalu rhwystrau drwgdybiaeth.*
>
> **Race Council Cymru (Abertawe)**

Roedd yr ymatebion hefyd yn cynnwys enghreifftiau o ddrwgdybiaeth rhwng cymunedau penodol a gwasanaethau neu gymorth penodol. Roedd pobl o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, er enghraifft, yn nodi bod drwgdybiaeth yn deillio o'r ffaith iddynt deimlo eu bod wedi'u targedu'n annheg gan wasanaethau cymdeithasol:

> *Y Gwasanaethau Cymdeithasol – dyna'r bobl fwyaf llygredig welais i yn fy myw. Dydyn nhw ddim yn deall fy niwylliant i o gwbl er dweud eu bod nhw. Rwy'n credu eu bod nhw'n fy marnu ac yn fy nhargedu.*
>
> **TGP Cymru**

2.6 Diffyg Llais

Thema arall yn ymwneud ag ymddiriedaeth ac ymgysylltiad oedd y diffyg llais a nodwyd gan lawer o gymunedau ar draws yr ymatebion. Roedd hyn yn cynnwys diffyg llais oddi mewn i brosesau democrataidd a fforymau cyhoeddus, hyd at adlewyrchu pryderon neu flaenoriaethau oddi mewn i lywodraethiant sefydliadau a gwasanaethau penodol. Cafwyd cyfeiriadau yn yr ymatebion, er enghraifft, at gyfraddau uwch o bobl yn dewis peidio â phleidleisio. Yr awgrym yn rhywfaint o'r adborth oedd nad yw gwneuthurwyr polisi yn deall nac yn poeni am fywydau cymunedau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a bod hyn yn cyfrannu at synnwyr o ddifreinio, ac yn atgyfnerthu hynny:

> *O'r rhai nad oeddynt yn pleidleisio, roedd y rhesymau'n amrywio o beidio â gwybod digon am y broses, bod heb ffydd yn y broses, a bod heb gyfeiriad i gofrestru ohono. Roedd diffyg ymddiriedaeth mewn newid a byth gweld aelod etholedig o unrhyw le yn siarad o blaid Sipsiwn a Theithwyr hefyd yn fater o bwys i'r rhai nad oeddynt yn pleidleisio. Roedd hefyd yn glir y teimlai llawer o bobl nad oedd y broses o unrhyw fudd iddynt.*
>
> **TGP Cymru**

Ystyriwyd bod lefelau isel o ymgysylltu ag ymgynghoriadau a'r ddadl gyhoeddus yn fater o bwys mewn rhai ymatebion. Roedd rhwystrau iaith, hyder isel, a pheidio â bod â dealltwriaeth o'u hawliau, dulliau gweithio llywodraeth ganolog a lleol a sefydliadau'r sector cyhoeddus oll yn rhesymau y cyfeiriwyd atynt mewn perthynas â hyn. Yn ymwneud yn agos â phob ffurf ar wahaniaethu hiliol, gan gynnwys hiliaeth sefydliadol, roedd petruster hefyd gan rai ynglŷn â lleisio eu pryderon:

Fel y diwrnod o'r blaen yn yr ysgol, roedd y plant yn chwarae pêl-droed a dyma blentyn yn galw fy mab yn 'black poo', a ddwedodd neb ddim byd hyd nes i fy mab ddod adref a dweud wrthyf i. Ffoniais yr ysgol a dweud a oes unrhyw un yn gwybod bod fy mab wedi'i alw'n 'black poo'? Medden nhw nad oedden nhw'n ymwybodol. Meddai fy mab fod athrawon amser chwarae yno a'i fod wedi dweud wrthyn nhw. Ychydig ddiwrnodau wedyn ffoniodd y pennaeth a dechrau siarad am y mater. Roedd arnaf i gymaint o ofn codi'r mater rhag ofn y bydden nhw'n trin fy mab yn wael. Rydych chi eisiau i'ch plentyn fod yn hapus yn yr ysgol, dyna i gyd.

Women Connect First, Ymddiriedolaeth Menywod Hayaat a Sefydliad Henna

Roedd y mater hwn yn ymestyn i'r rhan fwyaf o gymunedau a gynrychiolwyd yn yr ymatebion. Ar draws llawer o ymatebion, roedd ymdeimlad cyffredinol o rwystredigaeth a theimladau o beidio â chael gwrandawiad. Roedd diffyg gweledded pryderon a blaenoriaethau grwpiau lleiafrifol wrth ffurfio polisi a rheoli gwasanaethau cyhoeddus yn atgyfnerthu'r synnwyr o wahaniaethu systematig a diffyg diddordeb mewn newid cadarnhaol.

2.7 Deialog Aneffeithiol

Yn ymwneud yn agos â'r diffyg llais, mae'r ymdeimlad bod y llinellau cyfathrebu yn aneffeithiol rhwng cymunedau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a gwasanaethau cyhoeddus. Roedd diffyg tryloywder ac atebolrwydd canfyddiadol yn y modd y mae gwasanaethau'n gweithredu, yn ogystal â diffyg deialog effeithiol, yn tanseilio ymddiriedaeth ac ymgysylltiad ystyrlon rhwng gwasanaethau a phob person a chymuned.

Mae absenoldeb cyfathrebu effeithiol, dwy ffordd, rhwng asiantaethau cyhoeddus a chymunedau yn creu sawl her, gan gynnwys creu anawsterau i gymunedau o ran deall a defnyddio gwasanaethau. Gallai diffyg cyfathrebu effeithiol hefyd danseilio gallu gwasanaethau cyhoeddus i gyfleu'r heriau a wynebant wrth gynorthwyo pobl. Ym maes darpariaeth iechyd, er enghraifft, dwedwyd bod diffyg darpariaeth a chymorth penodol, yn arbennig ynghylch iechyd meddwl, yn fater pwysig ar draws yr ymatebion.

Mae iaith yn un o'r rhwystrau allweddol i gyfathrebu'n effeithiol. Mae hyn yn ymwneud â'r dewis o iaith, ac yn benodol cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n hawdd i bobl gael mynediad iddynt a'u deall. Y mae hefyd yn ymwneud â gallu pobl i ddeall a chyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg a Saesneg a'r angen i ddarparu cyfieithu. I rai cymunedau, yn arbennig rhai sydd â'r Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd ychwanegol, maent yn profi heriau sylweddol i gyfathrebu'n effeithiol. Mae i hyn effeithiau difrifol, gan gynnwys cyfranogi yn y gymdeithas mewn ffordd ystyrlon, ond hefyd defnyddio gwasanaethau:

Nododd un cyfranogwr ifanc nad yw ei rieni'n aml yn derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae hefyd yn rhaid i'r person ifanc gyfieithu i'w rieni, oherwydd y rhwystrau iaith. Nid oes cyfieithwyr yn cael eu darparu, sy'n effeithio'n negyddol ar y rhieni a'r person ifanc. Roedd y person ifanc yn teimlo nad yw'n cael mynegi'i hun pan mae'n rhaid iddo fod yn gyfieithydd i'w rieni.

Diverse Cymru

2.8 Rhyngblethedd

Roedd yr ymatebion hefyd yn tynnu sylw at faterion a ffactorau ehangach sy'n effeithio'n anghyfartal ar bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Mae ffactorau fel tlodi, rhywedd, daearyddiaeth, allgáu cymdeithasol, a diffyg symudedd cymdeithasol oll yn cymhlethu effaith gwahaniaethu:

> *Mae angen gwell cysylltiadau trafnidiaeth arnom, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus ratach i ardaloedd gwledig a llwybrau beicio yn yr ardaloedd gwledig fel y gall pobl gerdded a beicio'n ddiogel. Mae'n lle da i fyw ond mae yma lawer o dlodi. Nid oes gennym ddigon o dai fforddiadwy, trafnidiaeth rad, na digon o swyddi a chyfleoedd i bobl ifanc. Nid yw datblygiadau tai newydd yn fforddiadwy i bobl leol ifanc ac mae tai cymdeithasol yn gyfyngedig. Mae'r stoc dai bresennol hefyd wedi'u hadeiladu'n wael ac yn ddrud i fyw ynddi. Mae angen tai fforddiadwy, hygyrch, o ansawdd da arnom.*
>
> **Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru**

Roedd statws economaidd-gymdeithasol, a'r incwm y gall pobl ei ddefnyddio yn benodol, yn fater a godwyd ar draws yr ymatebion ac a oedd yn cymhlethu'r amddifadedd materol y mae pobl o gymunedau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ei brofi. Mae hyn wedi'i gymhlethu gan bandemig Covid 19:

> *Tai yw un o anghenion sylfaenol bywyd cymdeithasol. Mae llawer o bobl BAME mewn swyddi dros dro neu asiantaeth. Collodd llawer o bobl BAME eu swyddi o ganlyniad uniongyrchol i sefyllfa COVID 19. Mae incwm llawer o aelwydydd BAME wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i'r pandemig.*
>
> **KIRAN**

Roedd cydnabyddiaeth ymhlyg hefyd o'r anawsterau sy'n wynebu rhai pobl mewn cymunedau. Nodwyd bod rhieni, yn arbennig mamau, yn profi heriau a rhwystrau penodol a oedd yn effeithio ar eu gallu i gyfranogi mewn cymdeithas, yn arbennig mewn perthynas â chael gwaith:

> *Dylai gwasanaethau fod yn fwy cymwynasgar tuag at famau sydd â phlant. Gallai cyflogwyr fod yn fwy cymwynasgar hefyd (oriau gweithio hyblyg ac ati) ac efallai mwy o gymorth ariannol gofal plant oddi wrth y llywodraeth.*
>
> **Y Ganolfan Astudiaethau Islam a Chyngor Mwslimiaid Cymru**

Roedd pryderon sylweddol hefyd ynglŷn â'r perthnasoedd rhwng iechyd a llesiant, a hil ac ethnigrwydd. Roedd materion fel yr effaith mae'r gwahaniaethu a'r ynysigrwydd cyson y mae pobl yn eu profi yn ei chael ar lesiant, ac ar iechyd meddwl yn benodol, yn ddifrifol.

2.9 Anghydraddoldeb Cyfleoedd

Yn ymwneud yn agos â rhyngblethedd, roedd yr ymatebion hefyd yn trafod diffyg cyfleoedd. Roedd hyn yn cynnwys derbyn cyfleoedd addysg o ansawdd da ond hefyd yn ehangach yn y gymdeithas ac yn y gwaith. O'r safbwyntiau hyn, roedd diffyg cyfleoedd yn codi rhwystr sylweddol i symudedd cymdeithasol ac o ran mynd i'r afael â materion eraill y mae pobl yn eu profi, gan gynnwys tlodi a chael eu hynysu'n gymdeithasol.

Gan ystyried y ffactorau'n gronnus, meddai rhai fod effaith gwahaniaethu a diffyg cyfleoedd yn barhaus yn fater o bryder sylweddol, a bod i hyn oblygiadau pellgyrhaeddol:

> *Nid syndod yw'r ffaith bod 72% o'r ymatebwyr* [i'r arolwg] *yn teimlo mai bod yn BAME oedd y rhwystr i'w llwyddiant, ond mae'n fater o bryder mawr. Mewn llawer o ffyrdd, nid oes gwahaniaeth mewn gwirionedd a ydynt yn gywir; yr hyn sy'n bwysig yw eu bod yn credu bod hynny'n wir sy'n golygu eu bod yn mynd i mewn i gyfweliadau yn credu eu bod ar unwaith o dan anfantais. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo mai gwahaniaethu oedd y ffactor mwyaf sylweddol ynglŷn â bod yn ddi-waith a sut maent yn cael eu trin pan fyddant mewn swydd.*
>
> **Horn Development Association**

2.10 Derbyniad yn y Gymuned ac Ymgysylltu â'r Gymuned

Yn ymwneud yn agos â chyfle cyfartal, cyfeiriwyd hefyd at y graddau y mae pobl o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu derbyn yn y gymuned ehangach. Cyfeiriwyd hefyd at y profiad o hiliaeth a gwahaniaethu, sy'n cyfyngu ar allu pobl i ymgysylltu a chyfranogi'n ystyrlon yn y gymdeithas. Roedd yr effeithiau allgáu sydd i hiliaeth hefyd yn ynysu cymunedau ac yn eu hatal rhag ymgysylltu mwy â'r gymuned yn ehangach:

> *Roedd tua 52% o'n cyfranogwyr yn teimlo eu bod wedi'u hynysu o'r gymuned ehangach. Gallai hyn gael ei esbonio gan y ffaith nad yw'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cymysgu â phobl nad ydynt wedi arfer â hwy. Gall addasu i amgylchedd newydd, ynghyd â phwysau system addysg wahanol, lethu'r myfyrwyr rhyngwladol newydd. O'r sefyllfa hon, mae iselder yn gyffredin ymysg myfyrwyr ar ôl 2-3 mis o flinder. Gan ychwanegu at hyn, maent wedi'u hynysu mwy am fod yr holl ddigwyddiadau cymdeithasol wedi'u canslo yn sgil y pandemig.*
>
> **Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru**

Dwedwyd hefyd bod iaith yn rhwystr i integreiddio ar draws llawer o agweddau ar fywydau pobl. Nodwyd hefyd bod diffyg darpariaeth a mynediad at gyrsiau Saesneg fel Iaith Ychwanegol (ESOL) a chyrsiau iaith Gymraeg yn gwaethygu'r sefyllfa:

> *Meddai'r cyfranogwyr a atebodd y cwestiwn hwn mai'r rhwystr mwyaf maen nhw'n ei wynebu yw iaith. Mae rhieni nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn ei chael yn anodd helpu eu plant gyda'u gwaith cartref, ac oherwydd y diffyg gwybodaeth mewn gwahanol*

ieithoedd am ysgolion a'r system addysg, meddai llawer o rieni nad oedd modd iddynt helpu eu plant i wneud penderfyniadau cytbwys am eu haddysg i'r dyfodol a pha ddewisiadau sydd ar gael iddynt.

Race Council Cymru (Casnewydd)

2.11 Profiadau Cadarnhaol o Fyw yng Nghymru

Roedd yr ymatebion yn nodi'r ffurfiau ar wahaniaethu a'u goblygiadau, ond roedd llawer hefyd yn nodi'r nodweddion cadarnhaol sydd i fyw, gweithio ac astudio yng Nghymru. O'r safbwyntiau hyn, roedd pobl yn croesawu a gwerthfawrogi'r cymorth a gawsant gan wasanaethau cyhoeddus:

Mae mwyafrif y cyfranogwyr wedi cael profiad o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac roedd y mwyafrif yn mynegi eu bod wedi cael profiad da, ac yn teimlo nad oeddynt wedi wynebu unrhyw rwystrau nac anawsterau.

Race Council Cymru (Caerdydd a'r Fro)

Y tu hwnt i enghreifftiau penodol o wasanaethau cyhoeddus yr oedd pobl wedi'u derbyn a oedd yn gadarnhaol a chefnogol, roedd yr ymatebion hefyd yn tynnu sylw at brofiadau a safbwyntiau cadarnhaol o ymgysylltu â'r gymuned ehangach:

Mater dymunol hefyd yw bod ein gwaith wedi datgelu, o brofiadau'r Gymuned BAME, bod pobl Cymru yn gyfeillgar, cynhwysol, amrywiol a theg iawn ac mae yma ysbryd cymunedol da. Canfyddiad pobl yn gyffredinol yw bod Cymru yn fwy croesawgar tuag at ddiwylliannau eraill. Cafwyd sylw hefyd bod Cymru yn wlad flaengar iawn, gyda chenhedlaeth flaengar yn mynnu hawliau cyfartal i bawb.

Cymdeithas Ddiwylliannol Hindŵaidd Cymru

Cafwyd enghreifftiau eraill hefyd o ymatebwyr yn nodi eu bod yn teimlo bod Cymru yn fwy goddefgar a chynhwysol na gwledydd eraill lle'r oeddynt wedi byw neu wedi gael profiad ohonynt:

Roedd mwyafrif y bobl y siaradom ni gyda hwy yn gadarnhaol iawn ynglŷn â byw yng Nghymru at ei gilydd neu ynglŷn â byw yn eu rhan hwy o Gymru (yn arbennig yng nghefn gwlad) a theimlai rhai pobl fod Cymru yn lle mwy diogel a goddefgar i fyw na Lloegr, gyda gwell cyfleoedd ac integreiddio.

TGP Cymru

2.12 Blaenoriaethau ac Argymhellion

Ar draws yr ymatebion, caiff argymhellion eu cynnig ar sut y gallai'r Cynllun Gweithredu ac asiantaethau llywodraeth yn fwy cyffredinol fynd i'r afael â hiliaeth, gwahaniaethu, ac anghydraddoldeb o ran mynediad a chanlyniadau yn y gymdeithas yng Nghymru. Roeddynt

yn amrywiol eu natur, gydag argymhellion yn amrywio o awgrymiadau penodol o newidiadau i wasanaethau a chymorth penodol, i newidiadau economaidd, cymdeithasol a pholisi yn ehangach a oedd yn ofynnol er mwyn hybu mwy o gydraddoldeb.

Roedd pwysigrwydd addysg, er enghraifft, yn thema allweddol a gododd ar draws yr ymatebion. O'r safbwyntiau hyn, mae addysg yn llwybr i well ymwybyddiaeth a sensitifrwydd diwylliannol, a gall hyn arwain at well dealltwriaeth a llai o wahaniaethu a hiliaeth. Roedd yr awgrymiadau a'r argymhellion yn cynnwys mwy o hyfforddiant ac addysg ynghylch amrywiaeth ddiwylliannol i gynorthwyo gweision cyhoeddus ac eraill mewn safleoedd arweinyddol i ddeall ac ymgysylltu â phob person a chymuned. Roedd yr ymatebion hefyd yn nodi pwysigrwydd dathlu amrywiaeth a diwylliant ymysg plant a phobl ifanc yn yr ysgol. Roedd hyn yn aml yn cael ei ystyried yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â hiliaeth a gwahaniaethu, gan gynnwys i genedlaethau'r dyfodol.

Roedd gwella canlyniadau addysg pobl ifanc o wahanol gefndiroedd hefyd yn cael ei ystyried yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â rhai ffactorau eraill a all effeithio'n anghyfartal ar gymunedau penodol. O'r safbwyntiau hyn, gellid mynd i'r afael â thlodi, allgáu cymdeithasol, a symudedd cymdeithasol, er enghraifft, o leiaf yn rhannol, drwy well cyfleoedd a chanlyniadau addysg i'r cymunedau hyn. I rai, gan gynnwys ffoaduriaid, roedd hyn yn cynnwys ehangu cyfleoedd dysgu i bobl ddysgu Saesneg a fyddai'n eu galluogi i gyfranogi'n llawnach yn y gymdeithas.

Mae'r adroddiad yn troi'n awr i amlinellu'r themâu hynny sy'n ymwneud â meysydd polisi penodol a nodir yn y Cynllun Gweithredu.

3 Y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth

Mae'r adran hon yn amlinellu materion a themâu a gododd ar draws yr ymatebion mewn perthynas â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth.

3.1 Profiadau

Cynrychiolaeth Ddiwylliannol

Y mae cred mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig bod diffyg cynrychiolaeth ddiwylliannol yn niwylliant ehangach Cymru. Mae'r absenoldeb hwn o werthfawrogiad o luosogrwydd diwylliant Cymru fodern wedi'i gysylltu'n ôl i wladychiaeth yn ogystal â chreadigaeth systemig 'yr arall' mewn perthynas ag ymfudwyr a rhai o grefyddau, traddodiadau a hanesion gwahanol:

Testun digalondid mawr yw'r ffaith bod llawr o bobl yn teimlo nad yw eu diwylliant a'u cymuned yn cael eu cynrychioli yng Nghymru. Yn ddiddorol, nid yw hyn wedi atal pobl rhag ymgysylltu â diwylliant a threftadaeth Cymru ac mae llawer yn dweud bod ganddynt ddealltwriaeth dda ohonynt. "Yn dda iawn. O ganlyniad i wladychiaeth. Mae'r deiliad yn deall y meistr a'r meistr heb wybod dim am y bobl ar wahân i'r wybodaeth ffug am eu barbareiddiwch y mae 'angen' ymdrin ag ef yn llawdrwm.

Mae Bywydau Du o Bwys

Roedd pryderon hefyd, lle'r oedd cynrychiolaethau'n bodoli yn niwylliant Cymru fodern, bod y rhain yn dueddol o fod wedi'u trwytho â naratifau rhagfarnllyd a hiliol. Roedd y mater hwn yn ymestyn i'r rhan fwyaf o bobl a chymunedau a gynrychiolwyd yn yr ymatebion, gan gynnwys cymunedau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr:

Rwy'n teimlo fel bod fy niwylliant a fy nghymuned yn cael eu cynrychioli'n atgas, treisgar ac annysgedig.

Race Council Cymru (Casnewydd)

Nid yw amlddiwylliannaeth a gwahaniaethau diwylliannol yng Nghymru a Phrydain yn cael eu dathlu a'u parchu, gydag un cyfranogwr yn dweud "ni allwch fod yn Gymry ac yn Ddu".

Panel Cynghori Is-Sahara

Mae'r mater hwn yn ymestyn i ofodau a chyfleoedd i bobl fynegi'u hunain drwy ymarfer a mynegiant creadigol:

Nid oes gofod cyhoeddus i ddawns, hip hop a breg-ddawnsio. Mae pobl wir yn dibynnu arno a does dim ar gael. Mae angen bod mwy o jamio a chystadlaethau dawnsio, byddai'n dod â mwy o bobl i Gymru.

Avant Cymru

Ymgysylltiad Diwylliannol

Yn ychwanegol at ddiffyg cynrychiolaeth ddiwylliannol a dathlu diwylliant, roedd canfyddiad bod ymgysylltu â diwylliannau a thraddodiadau amrywiol o gymuned ehangach Cymru yn fater o bwys. Roedd rhai ymatebion, er enghraifft, yn nodi eu bod yn teimlo eu bod ar y cyrion, bod eu traddodiad a'u ffordd o fyw yn cael eu gwrthod:

Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod eu diwylliant a'u traddodiadau yn eilbeth i grwpiau eraill yng Nghymru yr ystyrid eu bod yn cael cymorth drwy ddigwyddiadau arbennig i dynnu sylw at eu diwylliant a bod yn falch ohono; roedd rhai eisiau iddo gael ei ddysgu yn yr ysgol ac roedd eraill yn fwy gwyliadwrus am fod llawer o draddodiadau yn breifat; roedd pobl iau yn siarad llawer am fod y gymuned sefydlog 'eisiau ymddwyn fel Sipsiwn ac mae hynny'n annifyr' yn arbennig pan eu bod hwy eu hunain yn teimlo nad yw'n cael ei werthfawrogi gan eraill.

TGP Cymru

Roedd eraill yn nodi bod ymgysylltiad cadarnhaol gan gymunedau ehangach o ran deall ac ymgysylltu â gwahanol safbwyntiau, cymunedau, a hunaniaethau:

Gofynnodd yr arolwg i'r cyfranogwyr a oeddynt yn teimlo bod dealltwriaeth o'u diwylliant a'u cymuned yng Nghymru. Meddai 55% bod dealltwriaeth o'r fath ac mai i'w cymunedau llawr gwlad lleol y mae'r diolch am hyn, lle maent wedi cynnal digwyddiadau sy'n arddangos eu diwylliant yn ogystal â chreu partneriaid â chymunedau llawr gwlad lleol eraill o wahanol ethnigrwydd, gan rannu eu diwylliant a'u treftadaeth.

Race Council Cymru (Gogledd Cymru)

Diffyg Derbyniad Diwylliannol

Oddi mewn i adroddiadau, roedd ymdeimlad nad oedd rhai cymunedau'n cael eu derbyn yn gyffredinol gan y gymdeithas ehangach. Roedd hyn yn effeithio ar ymgysylltiad y gymdeithas ehangach â rhai cymunedau, yn ffurfio'r ymgysylltiad yma, ac yn dylanwadu ar y gwahaniaethu a'r hiliaeth y maent yn eu profi wrth iddynt ryngweithio o ddydd i ddydd. Teimlwyd hyn yn gryf gan gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr:

Roedd pawb yn siarad â balchder a phositifrwydd am eu teuluoedd, eu diwylliant, eu traddodiadau; Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu cynrychioli yn y campau – prin iawn oedd y rhai a feddyliai fod dealltwriaeth o ddiwylliant Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, a'i bod yn cael ei pharchu, ei gwerthfawrogi neu'i chefnogi, boed gan y Llywodraeth neu gan bobl sefydlog.

TGP Cymru

3.2 Canlyniadau

Colli Hunaniaeth Ddiwylliannol

Mynegwyd pryderon bod diffyg ymgysylltu â diwylliannau a safbwyntiau penodol, a diffyg derbyniad ohonynt, yn cyfrannu at golli hunaniaeth ddiwylliannol ymysg y cymunedau hynny:

Dwedwyd wrthym bod rhai o'r bobl BAME a gymrodd ran yn yr arolwg hwn yn teimlo wedi'u datgysylltu o'u hanes a'u diwylliant eu hunain ac nad ydynt mewn amgylchedd lle y gallant ailgysylltu. Mewn lleoliadau gwledig, mae mwy o angen arddangos amrywiaeth ddiwylliannol leol.

Race Council Cymru (Gorllewin Cymru)

Goblygiadau Cyfreithiol a Pholisi

Roedd rhai ymatebion yn nodi bod canlyniadau diffyg cynrychiolaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol ym bwydo i mewn i ymatebion cyfreithiol a sefydliadol ehangach. Roedd hyn yn arwain at ffurfioli, sefydliadu, a parhau â gwahaniaethu hiliol ac anghydraddoldebau ar draws y gymdeithas yng Nghymru:

Meddai cyfran uchel o'r ymatebwyr [i'n harolwg] *(88.3%) hefyd bod y bwlch wedi'i ehangu gan gyfreithiau a pholisïau hanesyddol "nad ydynt yn adlewyrchu'r gymuned amrywiol bresennol yr ydym yn byw ynddi". Er enghraifft, rheoliadau tuag at grwpiau BAME sy'n mynnu arian gormodol am ordal iechyd wrth wneud cais am fisa.*

Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru

3.3 Themâu Ychwanegol

Beth ellir ei wneud?

Ystyrir bod arddangos yr amrywiaeth o ddiwylliannau sydd bellach yn trigo yng Nghymru yn hanfodol i sicrhau bod pob diwylliant a chefndir yn cael eu derbyn a'u deall. Mae'n werth nodi bod yn rhaid gwneud hyn yn ofalus ac y dylai'r arfer o ddefnyddio'r celfyddydau a pherfformio i wneud hyn gael ei wneud mewn ffordd sy'n barchus a diffuant.

O dan unrhyw amgylchiadau, ni ddylai camau diffuant i ddatrys y mater hwn gynnwys sefydliadau neu unigolion sydd heb hanes blaenorol o ymgodi'r cymunedau hyn yn rheolaidd. Byddai angen i'r gwaith hwn fod yn ddilys a helpu i adeiladu cryfder economaidd y cymunedau hyn a fyddai'n helpu i greu cysylltiadau cydlynus yng Nghymru. Ymhellach, bydd yn pwysleisio pwysigrwydd pobl Dduon yn adrodd storïau pobl Dduon, gan ddychwelyd pŵer y naratif i wir berchnogion y naratif.

Mae Bywydau Du o Bwys

4 Troseddu a Chyfiawnder

4.1 Profiadau

Troseddau Casineb

Cyfeiriodd yr adroddiadau at achosion o ymatebwyr yn dioddef o droseddau casineb. Roedd yr ymatebion yn aml yn tynnu sylw at yr effaith y gall y troseddau hyn gael ar bobl, gan gynnwys cynyddu gorbryder o amgylch y digwyddiad ei hun ac yn y profiadau a'r gweithdrefnau sy'n ei ddilyn. Yn aml, nid oes cosb yn sgil y troseddau hyn naill ai am nad ydynt yn cael eu hadrodd (naill ai oherwydd ansicrwydd ynglŷn â sut i adrodd neu ddiffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu) neu yn sgil diffygion yn y systemau sydd yn eu lle i erlyn unigolion:

Un tro roeddwn i ar y bws, roeddwn i am brynu gwisg yn y dref, a dyma hen ddyn yn dod ar y bws. Roeddwn i'n edrych i lawr ar fy ffôn a wnes i ddim sylwi arno, pan wnes i sylweddoli bod yr hen ddyn wrth fy ymyl i. Roedd yn dynn iawn felly allwn i ddim codi i roi fy sedd iddo. Dyma'r fenyw yma'n dweud wrthyf i am godi a gadael iddo fe eistedd. Wedyn dyma hi'n dechrau dweud - 'Mae'r bobl yma mor anghwrtais...does gan y mewnfudwyr yma ddim unrhyw foesau….. Betia i nad oes gennych chi basbort hyd yn oed... rydych chi mor anfoesgar'. Wedyn roedd y fenyw yn dweud pethau cas am Fwslimiaid. Roeddwn i eisiau fy amddiffyn fy hun ond doedd fy mam ddim eisiau gwneud ffws. Wnaeth neb arall gael i mewn i'r peth, arhosodd pawb yn dawel".

Women Connect First, Ymddiriedolaeth Menywod Hayaat a Sefydliad Henna

Yn yr ymatebion, cyfeiriwyd at blant ymysg y rhai yr adroddwyd eu bod wedi [profi] *ymddygiad hiliol. Mae hynny'n floedd am yr angen am newid. Ran amlaf o lawer, roedd y rhai a ddwedodd eu bod wedi dioddef trosedd gasineb hefyd yn dweud naill ai nad oeddynt wedi adrodd y drosedd oherwydd diffyg ymddiriedaeth yn y system, neu eu bod wedi'i hadrodd ac nad oeddynt yn fodlon â'r canlyniad.*

Mae Bywydau Du o Bwys

Dydw i erioed wedi adrodd am achos oherwydd rwy bob amser yn meddwl nad oes dim y gellir ei wneud. Rwy fel arfer yn clywed sylwadau hiliol tuag ataf pan fyddaf i yn y dref neu'n siopa… pan rwy wedi adrodd am achosion, roedd eraill yn dweud wrthyf i fy mod i'n chwarae'r cerdyn hil.

TGP Cymru

Diffyg Cefnogaeth gan Bobl mewn Awdurdod

O ran y bobl sy'n codi'u llais yn erbyn hiliaeth a gwahaniaethu, mater arall a gododd yn yr ymatebion oedd diffyg cefnogaeth gan rai mewn safleoedd o awdurdod mewn lleoedd fel ysgolion, busnesau, a chymunedau. Y diffyg cefnogaeth yma sy'n bwydo i mewn i'r naratif bod y system wedi torri, sydd yn ei dro yn arwain at fwyfwy o bobl sy'n ddioddefwyr heb fod yn

adrodd yr achosion am eu bod yn ddrwgdybus ynglŷn ag a fydd eu cwynion yn cael eu hystyried o ddifri. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod hiliaeth a gwahaniaethu yn cael eu tan-adrodd:

O'r cyfranogwyr a oedd wedi profi Trosedd Gasineb ac wedi'i hadrodd, un cyfranogwr yn unig a ddwedodd eu bod yn hapus â'r canlyniad. Roedd y rhai a oedd wedi adrodd trosedd yn teimlo naill ai nad oedd gan yr heddlu lawer o ddiddordeb neu'u bod wedi methu â chymryd camau dilynol digonol. Meddai rhai cyfranogwyr wrthym eu bod yn teimlo nad oedd yr heddlu wedi'u hyfforddi'n briodol i ddeall effaith trosedd gasineb a bod ganddynt ragfarn.

Fforwm Ieuenctid BAME Cenedlaethol

Hiliaeth Sefydliadol

Yn ôl yr adroddiadau, barn rhai cymunedau a grwpiau yw bod yr heddlu'n wasanaeth sy'n sefydliadol hiliol, gan gyfeirio er enghraifft at arferion fel proffilio hiliol, difaterwch tuag at ddioddefwyr troseddau, ac amharodrwydd i ymgysylltu â phrosesu troseddau casineb. Gall hyn effeithio'n negyddol ar ganfyddiadau pobl o'r heddlu:

Stopio a chwilio yn llawer amlach na'r poblogaethau gwyn. Mae'r hiliaeth lefel isel hon yn rhedeg trwy lawer o'r System Cyfiawnder Troseddol. Yn sicr nid yw pob heddwas yn hiliol ond mae'r rhai sydd heb ddiddordeb neu sydd â syniadau hiliol sefydlog rywfodd yn taflu'r mwyafrif i'r cysgod. Roedd 32 o'r 66 o ymatebwyr [i'n harolwg] *(49 y cant) yn meddwl bod y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru yn stigmateiddio ieuenctid BME yn hytrach na'u diogel, a 9 y cant yn unig oedd yn meddwl nad dyma'r achos o gwbl. Mae 52 y cant yn credu'n gryf bod stereoteipiau hiliol i'w canfod yn niwylliant yr heddlu a 3 y cant yn unig (dau berson o 67) a gredai nad dyma'r achos o gwbl. Roedd bron i bob ymatebydd eisiau gweld gwelliannau yn y system cyfiawnder troseddol ac roedd llawer o'r sylwadau'n cyfeirio at 'hyfforddiant' ar faterion o bwys i'r boblogaeth BME.*

Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru

Gofynnodd [ein] *harolwg i'r cyfranogwyr a oeddynt wedi dioddef o Drosedd Gasineb. Meddai dros 60% o'r cyfranogwyr a atebodd y cwestiwn hwn nad oeddynt. O'r cyfranogwyr a oedd wedi profi Trosedd Gasineb ac wedi'i hadrodd, meddai 50% eu bod yn hapus â'r canlyniad. Roedd y 50% arall a oedd wedi adrodd yr achos yn teimlo naill ai nad oedd gan yr heddlu ddiddordeb neu eu bod wedi methu â chymryd camau dilynol digonol. Meddai rhai cyfranogwyr wrthym nad ydynt yn adrodd achosion i'r heddlu am mai cam-drin geiriol ydyw; maent wedi arfer â hynny ac wedi bod yn dioddef ohono drwy gydol eu bywyd; mae hyder yn yr heddlu yn isel.*

Race Council Cymru (Gorllewin Cymru)

Diffygion yn y System Fewnfudo

Yn ogystal â hiliaeth sefydliadol yn yr heddlu, roedd rhai adroddiadau hefyd yn cyfeirio at yr hiliaeth sefydliadol mae pobl yn ei phrofi yn y system fewnfudo:

Credaf fod y system fewnfudo yn y Deyrnas Unedig yn wahaniaethol; mae'n araf iawn ac yn anodd cael gwybod beth sy'n digwydd. Pan fyddwch chi'n ceisio cael eich amddiffyn, mae gorfod aros am bedair blynedd neu fwy yn achos rhai pobl i gael gwybod a ydych yn cael aros yn destun straen mawr ac nid yw'n ymddangos ei bod yn system deg na dyngarol. Yr unig brofiad rwyf i wedi'i gael o'r heddlu yw rhoi fy olion bysedd.

TGP Cymru

4.2 Canlyniadau

Diogelwch Cyhoeddus

Mynegwyd pryderon bod troseddau casineb yn gwaethygu ac yn dod yn fwy cyffredin. Fel a nodwyd yn flaenorol, roedd digwyddiadau sy'n cynnwys hiliaeth agored, gan gynnwys Islamoffobia, yn dod yn fwy cyffredin. Yn fwy cyffredinol mewn perthynas â ffurfiau eraill ar droseddu, roedd adroddiadau eraill yn nodi bod synnwyr cyffredinol bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau o safbwynt troseddu:

Pan ofynnwyd a oeddynt yn teimlo'n ddiogel yn y gymuned y maent yn byw ynddi, meddai nifer llethol o'r ymatebwyr [i'n harolwg] *eu bod yn teimlo'n ddiogel (75%), ac 8% yn unig oedd yn teimlo'n anniogel neu'n anniogel iawn. Yn galonogol, roedd 90% o'r ymatebwyr yn teimlo'n ddigon diogel i fynd allan i'r gymuned ar eu pen eu hunain.*

Cymdeithas Gymunedol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Castell-nedd Port Talbot

5 Addysg

5.1 Profiadau

Cam-drin Hiliol a Bwlio

Thema allweddol ar draws yr ymatebion oedd y cam-drin hiliol eglur y mae plant a phobl ifanc yn ei phrofi mewn lleoliadau addysg. Roedd yr ymatebion yn nodi y gallant fod yn amgylcheddau lle y gall pobl o gefndiroedd hil a chrefyddol lleiafrifol fod yn destun amrywiaeth o wahaniaethu agored ac anymwybodol. Yn ychwanegol, mae'r cyflwyniadau'n adrodd bod hiliaeth sefydliadol a ddaw i'r amlwg drwy arferion fel sefyll i'r naill ochr a stereoteipio negyddol wedi gwaethygu effaith y cam-drin a wynebwyd gan yr unigolion:

> *Nododd y cyfranogwyr fod llawer o anwybodaeth, jôcs amhriodol a hiliaeth lafar, "Fe wnaeth fy athro yn yr ysgol wneud i mi redeg o amgylch yr ystafell a chogio bod yn fwnci tra'n gwneud synau mwnci", "Cefais i fy labelu'n "ymosodol" wrth drio fy mynegi fy hun", "Byddai'n galw enwau amhriodol arnaf i a oedd yn sarhau lliw fy nghroen". Meddai'r myfyrwyr fod hyn gan fyfyrwyr ac athrawon fel ei gilydd yn achosi'r gwahaniaethu.*
>
> **Fforwm Ieuenctid BAME Cenedlaethol**

Gallai effaith hiliaeth a bwlio arwain at ganlyniadau difrifol:

> [Mae'r plant yma] *yn cael eu bwlio a'u galw'n bob enw, dyma pam na allan nhw fynd i'r ysgol uwchradd. Am mai dyna maen nhw'n ei gael yw 'Rwyt ti'n Sipsi drewllyd'. Roedden nhw'n arfer cymryd dillad ac esgidiau fy mab. Roedd yn rhaid iddo adael yr ysgol yn 7 oed. Roedd yn rhaid i lawer o'r plant wneud yr un peth. Beth bynnag maen nhw'n ei wneud, nhw sy'n cael y bai. Os ydyn nhw'n cael cweir ac yn taro'n ôl, plant y Sipsiwn sydd ar fai, dyma pan nad ydyn nhw'n mynd i unrhyw le. Pan fyddwch chi'n trio ffitio i mewn, chewch chi ddim ffitio i mewn. Maen nhw'n dechrau cael eu bwlio; dyma pam fod yn rhaid iddyn nhw adael. Dydy e ddim i ni. Dyma'r realiti; maen nhw'n dweud nad yw olew a dŵr yn cymysgu. Nid er ei fwyn ei hun. Dyna sy'n digwydd, dydy neb yn gweld, does neb eisiau gwybod beth sy'n digwydd, cyhyd â bod ganddyn nhw rywun i'w feio.*
>
> **TGP Cymru**

Roedd materion hiliaeth a bwlio yn ymestyn ar draws gwahanol leoliadau, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar a hyd at brifysgol, ac mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Drwy ymgysylltu â rhieni a gweithwyr gofal ledled Cymru, er enghraifft, amlinellodd y Mudiad Meithrin brofiadau o fwlio a galw enwau a sarhau hiliol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Trin yn Wahanol

Roedd yr ymatebion hefyd yn nodi ei fod yn gyffredin i blant a phobl ifanc o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gael eu trin yn wahanol i ddisgyblion a myfyrwyr eraill. Er

enghraifft, mae pobl yn aml yn mynegi eu treftadaeth drwy steil eu gwallt, sut maent yn gwisgo, a'r iaith a ddefnyddiant, a'r canfyddiad o'r rhain neu sut roeddynt yn cael eu trin yn wahanol gan ddisgyblion eraill a staff. Roedd y driniaeth hon yn aml yn cael ei hystyried yn anghyfartal, yn ansensitif, ac ar adegau yn wahaniaethol:

Mae'n hysbys iawn bod myfyrwyr Du yn nodi profiadau o gael eu cosbi am steil eu gwallt, mynegiadau diwylliannol o rwystredigaeth (h.y. cusanu'r dannedd), a'u bod yn cael eu gwahardd ar lefelau anghyfartal ac yn academaidd yn derbyn graddau llawer is na'u cymheiriaid gwyn.

Mae Bywydau Du o Bwys

Rôl Athrawon a Staff

Rheswm y cyfeiriwyd ato'n aml am sut roedd rhai disgyblion a myfyrwyr yn cael eu trin yn wahanol oedd y rôl bwysig sydd gan athrawon, darlithwyr a sefydliadau wrth gynorthwyo amgylcheddau cynhwysol. O'r safbwyntiau hyn, teimlai'r ymatebwyr yn ymhlyg nad oedd athrawon a staff bob amser yn creu amgylcheddau cynhwysol, a bod eu gweithredoedd, gan gynnwys wrth ymgysylltu â disgyblion, yng nghyd-destun dysgu ac addysgu, yn cyfrannu at driniaeth wahaniaethol.

Gall athrawon fod yn anymwybodol neu'n ansicr ynglŷn â sut i ymdrin â materion hil yn gyffredinol a phenodol. Roedd naw ymateb pellach yn cyfeirio at fod angen hyfforddiant penodol ar athrawon (a staff ysgol eraill, gellir tybio) ar faterion tebyg ond, yn ychwanegol, sut i ymdrin â hiliaeth, ymddygiad hiliol a bwlio yn yr ysgol. Roedd dau sylw'n nodi'r problemau arbennig pan fo athrawon mewn ysgolion gwledig yn gwasanaethu poblogaethau bach unddiwylliannol.

Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru

Roedd achosion hefyd lle'r oedd rhagfarnau'n effeithio ar yr ymgysylltiad rhwng athrawon a phlant a phobl ifanc, ac yn ffurfio'r ymgysylltiad hwnnw. Roedd y stereoteipiau negyddol yma'n dylanwadu ar ymddygiad athrawon, ac yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion, gan gynnwys tanseilio hyder:

Un tro gwnaeth fy mab gyflwyno aseiniad, a honnwyd ei fod wedi copïo o'r rhyngrwyd. Pam? Fe ddwedon nhw ei fod yn rhy dda, roedden nhw'n gwrthod credu mai e oedd wedi'i ysgrifennu. Rhoddwyd graddau disgwyliedig gwael iddo. Maen nhw'n tynnu'r bechgyn i lawr. Maen nhw'n eu labelu'n ddrwg, wedyn maen nhw'n colli hyder.

Women Connect First, Ymddiriedolaeth Menywod Hayaat a Sefydliad Henna

Diffyg Amrywiaeth yn y Proffesiwn Addysgu

Ffactor allweddol a oedd yn cyfrannu at anghydraddoldebau mewn addysg a nodwyd gan rai adroddiadau oedd y diffyg amrywiaeth ymddangosiadol yn y proffesiwn addysgu, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Duon, Asiaidd, a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae i hyn nifer o oblygiadau

i'r ymatebwyr, gan gynnwys wrth greu a chynnal amgylcheddau cynhwysol, o ran sut caiff pob person a chymuned eu trin, ac o ran cyflawni cwricwlwm sy'n eang ei gwmpas ac yn sensitif i wahanol draddodiadau diwylliannol a hanesyddol:

Meddai'r cyfranogwyr mai ychydig iawn o athrawon neu benaethiaid BAME sydd yn eu hysgolion. Mae angen ymgyrch ragweithiol i recriwtio athrawon o gefndiroedd BAME, gan annog cymorth hyfforddiant â thâl i athrawon pob pwnc gan gynnwys y celfyddydau.

Race Council Cymru (Gorllewin Cymru)

Diffyg Amrywiaeth yn y Cwricwlwm

Thema allweddol arall oedd y canfyddiad o ddiffyg dathlu gwahaniaeth, gan gynnwys yr amrywiaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau yn y gymdeithas yng Nghymru. O'r safbwyntiau hyn, byddai hyn yn hybu gwell dealltwriaeth ymysg plant a phobl ifanc. Byddai hefyd yn cynorthwyo a hyrwyddo parch y naill at y llall ar draws gwahanol gymunedau, ac yn gweithio i fynd i'r afael â gwahaniaethu a hiliaeth mewn lleoliadau addysg ac yn y gymdeithas ehangach:

Dylai'r system addysg yng Nghymru gael ei hadolygu gyda phynciau gwladychiaeth, caethwasiaeth, a hanes ymfudo yng Nghymru yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm newydd. Yn ei hanfod, dylai hanes Cymru a Phrydain gael ei addysgu mewn ffordd sy'n cynnwys lleiafrifoedd ac ymfudwyr.

Panel Cynghori Is-Sahara

Mae'r cyfranogwyr yn teimlo bod diffyg gweithgareddau diwylliannol ac yn teimlo nad oes unrhyw hanes du/gwladychiaeth yn y cwricwlwm.

Race Council Cymru (Gorllewin Cymru)

Cafodd addysg a hyfforddiant, yn yr ystyr ehangaf o ddatblygiad proffesiynol i'r cwricwlwm, eu codi dro ar ôl tro fel ateb posibl i heriau gwahaniaethu ac anghydraddoldeb y mae'r cyfranogwyr yn eu hwynebu. Er bod rhywfaint o ddarpariaeth addysgol a hyfforddiant eisoes yn bodoli, dull gweithredu mwy trawsffurfiol fyddai gwreiddio gwerthoedd cydraddoldeb, tegwch, gwrth-hiliaeth, a rhyddid crefyddol mewn hyfforddiant ac addysg prif ffrwd, yn hytrach nag fel elfen ychwanegol o fframweithiau presennol.

Y Ganolfan Astudiaethau Islam a Chyngor Mwslimiaid Cymru

Addysg Iaith Saesneg

Roedd anfodlonrwydd ymysg rhai adroddiadau ynglŷn â lefel a safon y gwersi iaith Saesneg sydd ar gael. Nid cyfeirio'n unig at sut mae hyn yn cael ei addysgu mewn amgylcheddau ysgol y mae hyn, ond hefyd i oedolion sy'n ddysgwyr sy'n dymuno datblygu eu sgiliau Saesneg er mwyn iddynt allu cael gwell mynediad at wasanaethau ac o bosibl dod o hyd i swydd:

I oedolion sydd wedi cyrraedd Cymru, ni fu'r addysg i'w helpu i ddysgu Saesneg yn ddigonol iddynt fod yn fwy annibynnol neu ddod o hyd i swydd ar y cyfan. Y mae anfodlonrwydd sylweddol ynglŷn â'r broses sydd yn ei lle i ddysgu Saesneg. Y prif reswm am hyn yw pan fyddant yn mynychu gwersi Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), nid yw'r tiwtoriaid yn siarad Arabeg, felly nid yw'r cymorth a'r hyfforddiant ychwanegol y gallai fod eu hangen arnynt ar gael iddynt tra eu bod yn dysgu. Mae hyn wedi effeithio ar eu gallu i gael gwaith ac wedi golygu eu bod yn dal i fod yn ddibynnol ar weithwyr cymorth i ddarparu cymorth â materion fel gofal iechyd, tai, budd-daliadau a phethau felly.

Antur Cymru

Safonau addysgu da

Roedd rhai'n tynnu sylw at y gefnogaeth a'r cymorth a gawsant gan athrawon ac ysgolion. Roedd hyn yn cynnwys cymunedau o ffoaduriaid a oedd yn teimlo bod eu plant a'u pobl ifanc yn cael eu cefnogi'n dda iawn:

Mae lefel uchel iawn o foddhad â'r addysg y mae eu plant a'u pobl ifanc yn ei derbyn er mwyn rhoi sylfaen dda iddynt i adeiladu eu rhagolygon gyrfa hirdymor. Yn wir, y teimlad yw bod plant o Syria yn gwneud yn llawer yn well yng Nghymru nag yn unrhyw le arall lle bu'r teuluoedd yma'n byw o ran addysg.

Antur Cymru

5.2 Canlyniadau

Cyrhaeddiad Addysgol

Roedd yr adroddiadau'n tynnu sylw at gyrhaeddiad addysgol is ymysg plant a phobl ifanc o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig na'u cyfoedion. Roedd teimlad bod hyn yn tanseilio eu cyfleoedd bywyd, gan gynnwys o ran eu cynorthwyo i bontio'n llwyddiannus i fywyd fel oedolion a gwaethygu a pharhau ag anghydraddoldebau ar draws amrywiaeth o fesurau:

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithio i godi cyrhaeddiad addysgol ymysg y grwpiau ethnig hynny sy'n tanberfformio er mwyn cynorthwyo a chynyddu achosion llwyddiannus o bontio o addysg i gyflogaeth.

Panel Cynghori Is-Sahara

Ynysigrwydd

Mae llawer o'r materion y tynnwyd sylw atynt yn yr adran hon, gan gynnwys yr hiliaeth mae plant a phobl ifanc yn ei brofi, yn amlygu'i hun ar ffurf ymdeimlad cynyddol o fod wedi'u hynysu. O'r safbwynt hwn, hiliaeth a gwahaniaethu yw'r mynegiannau allanol sy'n diffinio ffiniau cymuned benodol. Gall cael eich allgáu'n barhaus o gymuned, o ran rhyngweithio

rhyngbersonol ac ymatebion sefydliadol a chyfunol, arwain at synnwyr difrifol o fod wedi'ch ynysu:

*Ar wahân i sylwadau am wahaniaethu'n hiliol yn erbyn aelodau staff, mae ymdeimlad cyffredinol o beidio â pherthyn yn ymwreiddio mewn unigolion sydd â'r canfyddiad bod eu hynysigrwydd yn cael ei orfodi arnynt yn systematig ar ffurf didoli (*segregation*). "Pan oeddwn i yn y coleg a'r brifysgol...roeddwn i'n ei chael yn anodd ac [rwy'n] brwydro i berthyn am fy mod i bob amser yn teimlo fy mod wedi fy nidoli." Roedd adroddiadau ingol yn amrywio o ganfyddiadau o ddiffygion hyfforddiant athrawon i'r angen i ategu addysg myfyrwyr sy'n perthyn i gymunedau sydd ar y cyrion (yn rhad ac am ddim). Er y gall y synnwyr hwn o fod wedi'u hynysu fod yn wahanol i unigolion yn dibynnu pryd y gwnaethant ddechrau derbyn addysg yng Nghymru.*

Mae Bywydau Du o Bwys

6 Cyflogaeth ac Incwm

6.1 Profiadau

Diffyg Cyfleoedd Cyflogaeth Priodol

Nodwyd ar draws yr ymatebion bod diffyg cyfleoedd cyflogaeth yng nghymuned leol yr ymatebwyr yn rhwystr allweddol. Roedd hyn yn cynnwys diffyg ymddangosiadol o swyddi sefydlog sy'n talu'n dda ar gael i bobl ymgeisio amdanynt:

> *Hefyd, mae'r rhai mewn ardaloedd gwledig yn teimlo bod llai o gyfleoedd gwaith iddynt nag mewn ardaloedd trefol. Mae mynediad at drafnidiaeth yn fater o bwys gan fod llawer o deuluoedd Syriaidd heb fynediad at eu trafnidiaeth eu hunain ac yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, a fyddai'n rhwystr mewn ardaloedd gwledig i fynd i'r gwaith a dod oddi yno.*
>
> **Antur Cymru**

Er i'r mater hwn gael ei godi ar draws yr ymatebion ac i bob person a chymuned a gynrychiolwyd yn yr ymatebion, yr oedd y mater hwn yn benodol o bwysig i bobl a chymunedau penodol. Roedd hyn yn cynnwys ceiswyr lloches, er enghraifft, lle'r oedd dod o hyd i waith yn rhwystr allweddol ag iddo amryw ganlyniadau, gan gynnwys methu â chyfranogi ac integreiddio'n llawn yn y gymdeithas.

Dod o hyd Gyflogaeth

Roedd adroddiadau hefyd o unigolion o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ei chael yn anodd dod o hyd i gyflogaeth a pharau mewn cyflogaeth. Cyfeiriodd yr adroddiadau at ffactorau fel ethnigrwydd ymgeisydd yn dylanwadu ar benderfyniadau cyflogi ac yn ei gwneud yn anoddach dod o hyd i gyflogaeth. O ran parhau mewn cyflogaeth, cyfeiriodd yr adroddiadau naill ai at gael eu rhyddhau neu at beidio â chael eu contractau wedi'u hadnewyddu, neu ar y llaw arall ymdrin â materion a oedd yn arwain at ddiswyddo deongliadol.

'Rwy'n adnabod cymaint o ddynion a menywod ifanc Mwslimaidd â graddau a chymwysterau da sy'n ei chael yn anodd cael swyddi. Rwyf wedi'i wynebu fy hun hefyd. Bu cymaint o ddyrchafiadau lle cefais fy anwybyddu ar eu cyfer a chymaint o gyfweliadau am swyddi lle nad oeddwn yn llwyddiannus, fel eich bod yn dechrau gweld patrwm. Fe wnes ddarganfod yn ddiweddar hefyd bod cydweithiwr a ddechreuodd yr un pryd â mi, ond â llai o brofiad, yn cael ei dalu mwy. Roedd yn rhaid i mi balu tipyn i gael gwybod pam ac mae'n debyg, pan wnaethon nhw ei gyflogi, eu bod wedi gwneud penderfyniad syml y dylai fod ar bwynt uwch ar y raddfa gyflog lle'r oeddwn innau wedi fy ngadael ar y pen isaf. Rydym ein dau'n gwneud yr un swydd, ac fe ddechreuais innau â mwy o brofiad, ond barnwyd ei fod yntau'n werth mwy.'

Y Ganolfan Astudiaethau Islam a Chyngor Mwslimiaid Cymru

Oddi mewn i'r thema hon, roedd canfyddiad hefyd nad oedd cymwysterau a phrofiad yr oedd pobl o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn meddu arnynt yn cael eu hystyried yn deg yn y broses recriwtio:

Mae'r diffyg cyfleoedd yn un rheswm, ond yn y rhan fwyaf o achosion, meddai'r ymatebwyr ei fod oherwydd y bernir nad yw eu sgiliau a'u cymwysterau, hyd yn oed os ydynt yn helaeth, yn cyd-fynd â'r swydd. Ystyrir [gan yr ymatebwyr] *mai'r tri phrif rwystr i gyflogaeth yw hil, statws mewnfudo a phroses hysbysebu a recriwtio wahaniaethol. Gan grynhoi, ma tystiolaeth yr ymatebwyr yn dangos yr edrychir i lawr ar ymgeiswyr BAME ar gyfer swyddi â chyflogau uchel neu y cânt eu hailystyried ar ôl cael cynnig swydd.*

Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru

Roedd rhwystrau ymarferol i gyflogaeth yn sylweddol i rai, gan gynnwys diffyg cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus mewn cymunedau mwy gwledig. Rhwystr allweddol i rai cymunedau, yn arbennig i rai y mae Cymraeg a Saesneg yn ail ieithoedd iddynt, oedd mynediad at gyfleodd da i ddysgu Saesneg a Chymraeg, gan gynnwys cyrsiau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL).

Parhau mewn Cyflogaeth

Roedd hiliaeth a gwahaniaethu hefyd yn effeithio ar bobl ar ôl iddynt gychwyn mewn swydd. Roedd y rhain yn cynnwys achosion o wahaniaethu a arweiniai at bobl yn colli eu swyddi:

Pan wnaethon nhw adeiladu'r [ganolfan siopa], fe es i i mewn fel blaen tŷ. Ffoniodd y Prif Weithredwr. Roedden nhw eisiau rhywun dwyieithog, ac mi wnes i siarad gydag ef yn ddymunol a phroffesiynol iawn. Daeth i Gaerdydd y diwrnod wedyn. Mi wnes i golli fy swydd y diwrnod yna. Roedd tri ohonom ni yn y swyddfa, ef, y rheolwr swyddfa a mi. Cefais alwad gan yr asiantaeth yn gofyn i mi fynd draw. Meddai gweithiwr yr asiantaeth, 'roedd y Prif Weithredwr yn meddwl nad oeddech chi'n iawn i'r swydd, roedden nhw eisiau rhywun hŷn'. Meddai hi, 'pan rydych chi'n meddwl am flaen swyddfa, rydych chi'n meddwl am rywun hŷn mewn sgert gul ac ychydig yn wahanol'. Dyma fi'n dweud, 'mae hynny'n gwahaniaethu ac yn dangos rhagfarn ar sail oedran, a'r rheswm go iawn yw fy lliw, yntê?' Meddai hi gan symud, 'Allaf i ddim dweud dim, a pheryglu fy swydd'. Mi gollais i fy swydd, a'i gadael hi'n

fanna, oherwydd y lefel yna o dderbyn. Dewiswch eich brwydrau. Doeddwn i ddim yn poeni llawer am y swydd yna, ond dyna fy mywyd o ddydd i ddydd. Dyma beth rwy'n ei ddisgwyl wrth fynd i mewn i gyfweliad. Maen nhw'n edrych ar fy lliw yn gyntaf.

Women Connect First, Ymddiriedolaeth Menywod Hayaat a Sefydliad Henna

Diffyg Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol

Yn gysylltiedig â'r heriau mae rhai pobl a chymunedau yn eu profi o ran parhau mewn cyflogaeth, roedd rhai ymatebion yn amlinellu diffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn y gweithle a all effeithio'n negyddol arnynt. Roedd hyn yn dod i'r amlwg mewn llawer o ffyrdd, megis diffyg dewisiadau dietegol pan fyddai sefydliadau'n cynnal digwyddiadau, gwneud sylwadau a allai fod yn annerbyniol, anwybodus a sarhaus, a diffyg gofod neu ddealltwriaeth i arfer eu dewis grefydd, er enghraifft methu â gweithio ar ddiwrnodau neu wyliau penodol:

Roedd llawer o gyfranogwyr yr ymchwil sy'n Fwslimiaid yn nodi bod yfed alcohol fel arfer yn rhan o weithgareddau cymdeithasol yng ngweithleoedd Prydain, ond ni allant gymryd rhan oherwydd eu credoau crefyddol, a bod hyn yn eu barn hwy yn cyfrannu at deimladau o fod wedi'u hynysu yn y gweithle.

Panel Cynghori Is-Sahara

Bwlio a Hiliaeth yn y Gweithle

Ymhellach, roedd profiadau o ffurfiau mwy eglur o wahaniaethu. Nodwyd hefyd bod bwlio a hiliaeth yn y gweithle yn fater o bwys mawr mewn rhai gweithleoedd. Roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at brofiadau o wahanol ffurfiau ar wahaniaethu, gan gynnwys hiliaeth fwy eglur hyd at ficro-ymosodiadau cyson yn y gweithle:

Ydw, rwy'n cael fy ngham-drin yn aml {mewn sefyllfa broffesiynol} mewn priodasau a digwyddiadau. Yn y gorffennol, doeddwn i ddim yn cael dyrchafiad ar sail hil (roedd yn glir hyd yn oed os nad oedd wedi'i ddweud) a minnau'n fwy na chymwys i'r swydd.

Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru

Gall hyn gael effaith ddifrifol ar bobl, gan gynnwys cynyddu lefelau gorbryder yn y gwaith:

Mae'n rhaid i chi niwtraleiddio'r diwylliant du sydd ynom ni er mwyn symud ymlaen yn eich proffesiwn. Mae pobl ddu yn ddisglair ac yn angerddol iawn ynglŷn â rhywbeth pan fyddwn ni'n siarad, rydyn ni'n ei gredu. Maen nhw'n meddwl ein bod ni'n uchel ein cloch. Pan fyddaf i yn fy ngwaith, rwy'n newid. Mae fy ffrindiau'n dweud y bydden nhw'n meddwl mod i'n Gymraes pe na bydden nhw'n fy adnabod i. Rwy'n defnyddio llais crand ac yn dweud helo, sut ydych chi, pan fyddaf i'n ateb y ffôn. Mae fy holl ymarweddiad, fy ngweithredoedd, traw fy llais, oll yn newid i fyd gwaith. O fod yn ferch ddu yn mynd i ysgol yng Nghymru, rydych chi'n mynd ac yn dysgu beth sy'n gweithio ac ar beth mae pobl yn sylwi. Er mwyn iddyn nhw fy nghymryd o ddifri, mae'n rhaid i mi gymryd arnaf drwy'r dydd

yn y gwaith…Mae'n rhaid i mi ymddwyn mewn ffordd benodol. Mae'n rhaid i mi wisgo mewn ffordd benodol. Allaf i ddim ymlacio. Rwy'n actio drwy'r dydd yn y gwaith.

Women Connect First, Ymddiriedolaeth Menywod Hayaat a Sefydliad Henna

Nodwyd hefyd bod diffyg ymwybyddiaeth a sensitifrwydd diwylliannol yn fater o bwys, ac na fu'n rhaid i gwmnïau ymaddasu o'r blaen at anghenion pobl o ffydd a chefndiroedd gwahanol. Mewn rhai achosion, roedd heriau ynghylch adrodd am ymddygiad hiliol yn y gweithle, ac ofn hefyd y byddai'n cael ei ddiystyru neu y byddai'n effeithio ar eu gallu i ymgysylltu a ffynnu yn y gwaith ac ym mywyd y gymuned:

Roedd y Cyfranogwyr hynny na wnaethant adrodd am drosedd neu ddigwyddiad casineb yn dweud wrthym bod y digwyddiadau wedi digwydd yn eu gweithle neu yn eu cymdogaeth. Roeddynt wedi dewis peidio â'u hadrodd am y byddent yn poeni y byddai'n effeithio ar eu cyflogaeth neu'n effeithio ar eu bywyd adref.

Race Council Cymru (Gogledd Cymru)

Nodwyd bod hiliaeth a bwlio yn y gweithle yn nodwedd reolaidd ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus:

Mae bron i 60% o'r ymatebwyr a gymerodd ran yn ein harolwg wedi'u cyflogi yn y Sector Cyhoeddus megis yn y GIG, y Cyngor ac ati, a datgelodd ein harolwg fod 68% o'r ymatebwyr mwy na thebyg wedi profi hiliaeth yn eu gweithle. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn pryderu am effaith hiliaeth yn eu gweithle ac roedd bron i 40% yn anghytuno bod pob cyflogai'n cael cyfle cyfartal o ran camu ymlaen mewn gyrfa / cael dyrchafiad yn eu gweithle.

Cymdeithas Ddiwylliannol Hindŵaidd Cymru

Diffyg Cynrychiolaeth mewn Safleoedd o Awdurdod

Roedd yr ymatebion hefyd yn tynnu sylw at ddiffyg ffigurau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn safleoedd o awdurdod ac mewn swyddi uwch eraill yn y sefydliadau y maent yn gweithio ynddynt. Mynegodd rhai rwystredigaeth gan deimlo na allant ddringo'r ysgol, ac roedd eraill yn fwy rhwystredig ynglŷn â'r diffyg amrywiaeth ymysg y bobl mewn swyddi arweinyddol i fod yn esiamplau a darparu cefnogaeth:

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddynt yn teimlo bod eu hethnigrwydd wedi'i gynrychioli ar lefel uwch yn eu gweithle. Meddai'r rhan fwyaf o gyfranogwyr nad oedd, ond dwedwyd wrthym nad yw hyn yn effeithio ar eu gweithle o ddydd i ddydd. "Nid oes esiamplau'n bodoli felly mae'n rhaid i ni reoli ein dyheadau ac mae'r lefel o ddealltwriaeth am wahanol gefndiroedd yn isel ar lefel uwch". "Mae'r uwch reolwyr i gyd yn wyn a does ganddyn nhw ddim profiad go iawn o hiliaeth felly ni allant ddangos empathi ac maent yn aml yn euog o ragfarn ddiarwybod."

Race Council Cymru (West Wales)

6.2 Canlyniadau

Tan-gyflogaeth

Yn sgil anawsterau o ran dod o hyd i gyfleoedd gwaith a pharhau mewn cyflogaeth, roedd llawer o unigolion yn dweud eu bod yn eu cael eu hunain yn bodloni ar waith â sgiliau neu gyflog is na'r hyn fyddai eu profiad a'u sgiliau yn golygu eu bod yn gymwys i'w wneud:

> *Mae llawer o aelodau BAME yn methu â chael gwaith mewn sectorau gwasanaethu, yn arbennig mewn sectorau cyhoeddus fel y Cyngor, y Cynulliad ac ati. O ganlyniad i'r sefyllfa hon, mae llawer o bobl ethnig sydd wedi graddio yn Bangladesh, India, Pakistan, naill ai'n gyrru tacsis neu'n gweithio mewn swyddi â chyflog isel. Ar un achlysur, gwrthododd cyflogwr yng Nghaerdydd roi swydd i berson o India a oedd wedi gwneud MBA mewn Prifysgol yn y Deyrnas Unedig am fod ganddo acen.*
>
> **KIRAN**

Anghysonderau mewn Cyflogau

Thema allweddol ar draws yr adroddiadau oedd rôl ac effaith anghysonderau mewn cyflogau yn y farchnad lafur. Meddai unigolion eu bod yn credu eu bod yn canfod eu hunain yn cael eu talu'n annheg o gymharu â chydweithwyr sy'n gwneud yr un swyddi. Cyfeiriodd yr adroddiadau at enghreifftiau o godiad cyflog yn cael ei wrthod i bobl, pobl yn cael eu talu'r un faint â chydweithwyr is a llai profiadol, a phobl yn cael cynnig dechrau mewn swydd ar gyflog is na'r disgwyl:

> *Cafwyd rhai adroddiadau o gyflogau'n annigonol a chyfranogwyr yn gwneud gwaith y tu hwnt i'w dyletswyddau. "Nid yw'r cyflog yn briodol i'r llwyth gwaith", "Mae swyddi sy'n talu'n dda yn anodd iawn i'w cael os ydych chi'n BAME, diffyg cyfleoedd", "Rwyf i wedi cael fy nhrin yn deg ond nid yw'r cyflogau bob amser yn briodol i'r swydd rwy'n ei gwneud".*
>
> **Fforwm Ieuenctid BAME Cenedlaethol**

Allgáu Cymdeithasol

Roedd llwyddo i gael swydd yn cael ei ystyried yn rhan bwysig o gyfranogi'n weithredol ac ystyrlon yn y gymdeithas. Roedd rhwystrau a heriau wrth ddod o hyd i swydd a pharhau mewn swydd yn gwaethygu allgáu cymdeithasol, gan gynnwys lleihau'r adnoddau ariannol a chymdeithasol sydd eu hangen i ymgysylltu â bywyd cymunedol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn achos grwpiau a oedd yn cael eu hallgáu'n weithredol o'r farchnad lafur ym mholisi llywodraeth, gan gynnwys cymunedau ceiswyr lloches a ffoaduriaid:

> *Mae cymorth i geiswyr lloches yn swm bach iawn i deulu neu unigolyn fyw arno ac rwy'n credu y dylai hyn gael ei gynyddu. Rwyf hefyd yn meddwl y dylai ceiswyr lloches gael eu caniatáu i weithio yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig fel y gallant gyfrannu i'r gymuned a chefnogi'u teulu a rhoi'r cyfle iddynt gael eu parchu. Nid yw rhai pobl yn gwybod nad yw*

ceiswyr lloches yn cael gweithio ac maen nhw'n meddwl eu bod nhw'n ddiog neu na ddylen nhw fod yma a'u bod nhw'n cymryd arian a bwyd oddi ar bobl eraill. Mae peidio â chael gweithio yn ddrwg i iechyd meddwl pobl ac i integreiddio.

TGP Cymru

Po hiraf maen nhw'n aros ar fudd-daliadau, yr anoddaf fydd iddynt symud ymlaen i gyflogaeth neu hunangyflogaeth. Mae cyflogaeth ystyrlon yn caniatáu i Syriaid integreiddio mwy yn y gymdeithas yn gyffredinol, yn gwella hunan-barch, hyder ac ysgogiad, ac mae iddi fanteision cadarnhaol i'r teulu cyfan.

Antur Cymru

Hunangyflogaeth

Roedd rhai unigolion yn dweud eu bod wedi troi at roi cynnig ar hunangyflogaeth am resymau fel methu â dod o hyd i swydd, a'r anfodlonrwydd a'r gwahaniaethu roeddynt wedi'i brofi yn y gweithle:

Mae'n anodd iawn dod o hyd i swydd; mae'r rhan fwyaf yn hunangyflogedig... töwr, garddwr, dynion sgrap, a bydd eu plant yn dilyn yr un proffesiwn pan fyddan nhw'n rhoi'r gorau iddi. Maen nhw eisiau dal ati i wneud hyn am eu bod nhw'n hoffi bod yn feistr arnyn nhw eu hunain a glynu wrth eu ffyrdd diwylliannol. Pe gallen nhw aros yn yr ysgol, rwy'n credu y gallai pobl gael gwell swyddi a gwell incwm. Bydd y merched yn aml yn cael swydd wahanol fel glanhau a gwaith swyddfa. Byddai'r dynion yn siarad am eraill sydd ddim yn gwneud swyddi sy'n swyddi nodweddiadol o'r Sipsiwn, er enghraifft pe byddai un yn arddwr ac un arall yn ddyn sgrap ac un yn gweithio mewn ffatri, wedyn byddai'r dynion yn siarad am y dyn yn y ffatri.

TGP Cymru

7 Iechyd a Gofal Cymdeithasol

7.1 Profiadau

Diffyg Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol

Thema allweddol ar draws yr adroddiadau a gyflwynwyd oedd y diffyg canfyddiadol o ymwybyddiaeth ddiwylliannol gan rai staff iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd diffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn llywio'r modd yr oeddynt yn ymwneud â staff mewn ffyrdd a oedd yn gadael pobl a chymunedau'n teimlo eu bod yn cael eu trin yn wahanol. Mewn rhai sefyllfaoedd penodol, roedd diffyg canfyddiadol o ymwybyddiaeth ddiwylliannol hefyd yn cwmpasu'r triniaethau a gynigwyd i bobl a chymunedau. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, triniaethau a oedd yn â mymryn o alcohol neu gynnyrch anifeiliaid, sy'n mynd yn groes i gredoau crefyddol neu ddiwylliannol:

> *Brechlyn trwynol yn unig mae fy meddygfa yn ei gynnig fel pigiad ffliw ac mae'n cynnwys gelatin porc sydd ddim yn cael ei ganiatáu yng nghrefydd Islam. Fe wnes i drio'n galed, ond nid yw staff y feddygfa neu'r fferyllfeydd yn cydweithredu*.
>
> **Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru**

Roedd y diffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn effeithio ar bob cymuned a gynrychiolwyd yn yr ymatebion, ond roedd y ffurf a'r goblygiadau'n amrywio ar draws y gwahanol grwpiau. Fel a nodir yn yr enghraifft, roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at bryderon ynglŷn ag ymwybyddiaeth ddiwylliannol sy'n ymwneud yn benodol â chredoau, traddodiadau neu arferion diwylliannol penodol. Fel a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd hyn yn cynnwys cynorthwyo pobl mewn lleoliadau gofal cymdeithasol:

> *Dwedwyd wrthym bod rhai wedi profi gofal personol diffygiol – "Mae gwallt Affro fel arfer yn cael ei dorri'n fyr hyd at foel gan na all aelodau staff gwyn ofalu amdano".*
>
> **Race Council Cymru (Caerdydd a'r Fro)**

Drwgdeimlad a Hiliaeth gan Staff

Roedd sawl sefydliad yn adrodd bod y grwpiau'r oeddynt wedi siarad gyda hwy wedi profi drwgdeimlad neu hiliaeth gan staff a oedd yn gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd y profiadau hyn yn amrywio o ddiffyg parch a rhai'n edrych arnynt ac yn eu trin yn wahanol, hyd at gael eu hanwybyddu'n llwyr yn sgil ffactorau megis y ffordd maent yn edrych neu'r ffordd maent yn siarad:

Roedd y rhan fwyaf o'r staff meddygol yn fy nhrin ac yn fy nghefnogi'n dda, ar wahân i un meddyg ymgynghorol a oedd yn nawddoglyd iawn am fy mod i'n fenyw estron. Am ei fod yn estron ei hun, roedd yn dilyn traddodiad ei wlad ef o siarad gyda gŵr y fenyw sy'n glaf yn hytrach nag â'r fenyw ei hun.

Race Council Cymru (Abertawe)

Mae'r rhai hŷn a'r rhai iau yn eu cymunedau yn cael eu trin yn llai teg na'r grwpiau hyn yn y gymdeithas Gymreig, fwyafrifol; yn argyhoeddedig bod angen i wasanaethau cyhoeddus fod yn fwy ymwybodol o wahaniaethau o ran hil ac ethnigrwydd a derbyn gwell hyfforddiant.

Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani

Unwaith eto, roedd y mater hwn yn effeithio ar bob cymuned a gynrychiolwyd yn yr ymatebion, gan gynnwys aelodau o gymunedau Teithwyr, Roma a Sipsiwn, yn ogystal â phobl o gefndiroedd gwahanol.

Rhwystrau Iaith

I rai cymunedau penodol, nodwyd bod rhwystrau iaith yn rhwystr allweddol arall sy'n cyfyngu ar fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny. Nodwyd bod rhwystrau iaith yn effeithio ar y gallu i drefnu apwyntiadau, ac wrth gyfathrebu â staff. Gallai hyn arwain at ganlyniadau difrifol, gan gynnwys methu â disgrifio symptomau a phenderfynu ar y diagnosau cywir, a dryswch ynglŷn â sut i gymryd meddyginiaeth sydd wedi'i phresgripsiynu:

Nodwyd mai iaith yw'r rhwystr mwyaf; roedd cyfranogwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn dweud wrthym bod peidio â chael cyfieithwyr ar y pwynt cyswllt cyntaf wedi arwain at gamddiagnosis neu'r claf yn methu â deall y diagnosis a'r driniaeth.

Race Council Cymru (Gogledd Cymru)

Roedd hyn yn effeithio'n benodol ar rai sydd wedi symud i Gymru'n ddiweddar, gan gynnwys pobl y mae'r Saesneg a'r Gymraeg yn ail iaith iddynt, megis ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Gofal Annigonol

Roedd yr adroddiadau hefyd yn tynnu sylw at bryderon ynglŷn ag ansawdd y gofal roedd pobl a chymunedau yn ei dderbyn. Mynegwyd hyn mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys y canlyniadau a ddeilliai o'r diffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol, drwgdeimlad gan staff, a rhwystrau iaith a brofai pobl. Roedd hyn hefyd yn amlwg wrth ddeall, rhagweld, ac ymateb i faterion iechyd sydd yn bennaf neu'n fwy tebygol o effeithio ar grwpiau neu gymunedau penodol:

O ran rhwystrau ac anawsterau, roedd yma thema o gleifion nad oeddynt yn teimlo bod meddygon wedi'u haddysgu'n dda iawn am faterion iechyd sy'n effeithio'n bennaf ar bobl o dras Affricanaidd, fel anemia'r crymangelloedd.

Mae Bywydau Du o Bwys

Mae cyfradd uchel o anabledd ymysg y boblogaeth Syriaidd yn rhannol o ganlyniad i anafiadau a gafwyd yn y gwrthdaro yn Syria, ac effeithiwyd ar fynediad at ofal arbenigol. Mae teimlad hefyd, er bod meddyginiaeth yn cael ei phresgripsiynu, nad oes digon o amser yn cael ei dreulio ar ymchwilio i wreiddiau materion iechyd er mwyn i ymyriadau cywirol priodol gael eu cynnal.

Antur Cymru

Gallai canlyniadau'r sefyllfaoedd o ofal annigonol a nodwyd yn yr ymatebion gynnwys canlyniadau iechyd gwaeth, a all wthio grwpiau a chymunedau penodol yn bellach i'r cyrion. Mae hyn yn cyfeirio'n ôl at faterion rhyngblethedd ac effeithiau cymhlethol iechyd diffygiol ar allu rhywun i gyfranogi yn y gymdeithas.

Mynediad ac Amserau Aros

Mynegwyd pryderon cyffredinol hefyd ynglŷn ag amserau aros estynedig. Roedd y rhain yn aml yn ymwneud â defnyddio gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol, gan gynnwys apwyntiadau meddygon teulu. Roedd hyn yn fater o bwys yn benodol i unigolion sydd heb dderbyn statws preswylydd sefydlog, neu sydd newydd dderbyn hynny, a'r gallu i droi at arian cyhoeddus. Dwedwyd hefyd ei fod yn rhwystr cymhlethol i' rhai y mae angen cyfieithydd neu ffurfiau eraill ar gymorth arnynt er mwyn mynd i apwyntiad meddygol, a allai achosi oedi i apwyntiadau a thriniaethau:

Roedd un o'r cyfranogwyr yn teimlo bod anhawster ynglŷn ag oedi wrth gael diagnosis. "Arhosodd fy mam am fwy na phedair blynedd cyn cael diagnosis cywir. Yn ystod yr amser yma, fe'i gwnaed yn fethdalwr." Ac yn ôl cyfranogwr arall a ddwedodd eu bod wedi wynebu gwahaniaethu: "Roedden nhw'n ei chael yn anodd rhoi diagnosis i mi oherwydd lliw fy nghroen".

Fforwm Ieuenctid BAME Cenedlaethol

Gwrthod Gwasanaeth

Roedd rhai ymatebion hefyd yn nodi y gwrthodwyd gwasanaeth gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i unigolion a oedd yn rhan o'u harolwg. Roedd hyn yn cynnwys gwrthod oherwydd diffyg cyfeiriad sefydlog, gwasanaeth yn cael ei wrthod, yn ôl a ddeallwyd, gan staff ar ôl clywed eu hacen, peidio â chael eu credu, neu'u cymryd o ddifri, neu heb fod â mynediad i arian cyhoeddus oherwydd statws mewnfudo er bod angen sylw brys arnynt:

Mae siarad mewn acen dramor yn arwain at wrthod apwyntiadau dros y ffôn ac wedi gweld eraill yn cael apwyntiadau ar ein holau, pan fyddem ninnau wedi ein gwrthod ar flaen y ciw hyd yn oed yn [practis meddygon teulu a enwyd].

Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru

Adlewyrchwyd y mater hwn ar draws ymatebion a chyda grwpiau gwahanol. Gallai'r canlyniadau fod yn ddifrifol oherwydd, fel yn achos gofal annigonol, gallai gwrthod cymorth arwain at wthio grwpiau a chymunedau yn bellach i'r cyrion yn sgil gwaeth canlyniadau iechyd a llesiant.

Diffyg Dealltwriaeth o Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mewn ymatebion eraill, gwelwyd bod diffyg dealltwriaeth yn rhwystr i lywio'n effeithiol drwy'r cymorth sydd ar gael a chael mynediad iddo. Yn gysylltiedig yn agos â rhwystrau iaith a all effeithio ar allu pobl i ddeall wrth gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, roedd yr ymatebion hefyd yn cyfeirio at bwysigrwydd bod yn gyfarwydd â sut mae pethau'n gweithio, gan gynnwys llywio drwy gymorth a chael mynediad ato:

Mi wnes i ddod i Gymru ar fy mhen fy hun a chefais gymorth gan ofal cymdeithasol, ond dim ond nawr, o siarad gyda fy Eiriolwr, rwy'n dechrau deall y gwahanol bobl sy'n fy helpu ac i bwy maen nhw'n gweithio. Rwy'n credu y byddai'n helpu bod mwy o wybodaeth yn cael ei hesbonio ar gam cynnar gyda chyfieithydd oherwydd pan nad ydych chi'n siarad Saesneg mae'n anodd gwybod pwy yw pwy a sut gallan nhw eich helpu. Mae'r bobl lle rwy'n byw yn barod eu cymorth ac yn gadarnhaol a chefnogol iawn. Pan gyrhaeddais i Gymru roeddwn i ar fy mhen fy hun ac yn bryderus ac ofnus iawn. Wnaeth y gweithwyr cymdeithasol y gwnes i gwrdd â nhw ddim esbonio wrthyf i ble'r oeddwn i na fy helpu i ddeall yn iawn pwy oedden nhw. Rwy'n gwybod nawr nad oedd ganddyn nhw brofiad o helpu plant sy'n geiswyr lloches ac am amser hir roeddwn i wedi fy ynysu. Ond mae pethau'n newid nawr ac rwy'n deall mwy am sut i ymwneud â phenderfyniadau ynglŷn â fy mywyd. Mae angen i bethau newid fel bod gweithwyr proffesiynol yn gwybod sut i helpu pobl.

TGP Cymru

Pwysigrwydd ffurfiau eraill ar Gymorth

Wrth ymateb i faterion iechyd a llesiant, roedd yr ymatebwyr hefyd yn sôn am bwysigrwydd ffurfiau eraill ar gymorth, gan gynnwys y teulu, y gymuned ehangach a mudiadau trydydd sector. Roedd hyn yn rhannol yn deillio o faterion yn ymwneud â diffyg ymddiriedaeth a sensitifrwydd a oedd yn cael ei gynnig gan wasanaethau cyhoeddus:

Nododd cyfranogwyr hŷn fod eu hanghenion sylfaenol yn cael eu diwallu gan eu cymuned grefyddol a'u teulu. Nid oeddent yn teimlo'n gyfforddus yn troi at wasanaethau prif ffrwd i bobl hŷn.

Y Ganolfan Astudiaethau Islam a Chyngor Mwslimiaid Cymru

Roedd hyn yn effeithio'n benodol ar gymunedau a deimlai fod y ddarpariaeth yn ddiffygiol, gan gynnwys mewn perthynas â darpariaeth a chymorth iechyd meddwl, gan gynnwys pobl â chefndiroedd Du.

Profiadau Cadarnhaol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Thema arall ar draws adroddiadau oedd profiadau cadarnhaol pobl wrth dderbyn cymorth iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys ansawdd y gofal a'r sylw cydwybodol a dderbyniodd pobl:

> *Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr at brofiad da o'r gwasanaeth iechyd ac nid ydynt wedi profi llawer o rwystrau nac anawsterau wrth gael mynediad i'r GIG neu'i defnyddio, am ei bod yn ddiwylliannol amrywiol iawn.*
>
> **Race Council Cymru (Gorllewin Cymru)**

7.2 Canlyniadau

Iechyd a llesiant gwael

Oherwydd y rhwystrau a'r cyfyngiadau ychwanegol mae pobl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio gwasanaethau, a'r profiadau negyddol o'r cymorth a'r gofal maent yn ei dderbyn, roedd yr ymatebion hefyd yn tynnu sylw at yr effaith negyddol a gawsant ar iechyd a llesiant. Roedd y thema hon hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at COVID-19 a sut mae effeithiau negyddol y pandemig wedi effeithi ar rai cymunedau'n arbennig o anghyfartal a llym, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

> *Methu â fforddio bwyta'n iach, a fydd yn gwaethygu am fod COVID yn effeithio'n fwy ar BAME. Ni all 55% o'r ymatebwyr fforddio bwyta'n iach, nid yw 50% yn teimlo'n iach ac nid oes gan 24% ddigon o arian i'w bwydo eu hunain a'u plant.*
>
> **Horn Development Association**

Ynysigrwydd

Siaradodd yr ymatebwyr hefyd am heriau ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd yn eu cymunedau. Nid oedd bob amser yn bosibl barnu i ba raddau roedd hyn o ganlyniad i ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, gan fod y rhan fwyaf o'r cyfeiriadau at y thema hon yn cyfeirio at synnwyr o gael eu hynysu oddi wrth y gymuned ehangach. Cafwyd cyfeiriad hefyd at amgylchiadau cyfredol ynghylch COVID-19 yn gwaethygu'r sefyllfa, yn arbennig i aelodau hŷn y gymuned.

Effeithiau Iechyd Meddwl

Roedd peryglu iechyd meddwl yn bryder allweddol ar draws yr ymatebion. Mynegwyd pryderon cryf ynglŷn ag effaith andwyol a gâi'r gwahaniaethu a'r ynysigrwydd mae pobl a chymunedau'n eu profi ar draws eu bywydau:

> *Ymhellach, mae'r astudiaeth hon wedi darganfod bod 71% o'r cyfranogwyr yn hawlio bod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu yn ystod y pandemig. Yn ychwanegol, cyfeiriodd cyfranogwyr yr ymchwil yn aml at fater iechyd meddwl a'r effaith sylweddol mae hiliaeth wedi'i chael ar eu hiechyd meddwl. Maent wedi dadlau am well gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru ac am gynnydd yn y nifer o gwnselwyr o gefndiroedd ethnig tebyg.*
>
> **Panel Cynghori Is-Sahara**

Roedd yr ymatebion hefyd yn cyfeirio at amrywiaeth o heriau iechyd meddwl sy'n wynebu pobl a chymunedau, gan gynnwys yn y materion y maent yn eu hwynebu ac wrth gael mynediad at ddarpariaeth iechyd meddwl. Roedd ymdeimlad cyffredinol ar draws yr adroddiadau bod darpariaeth iechyd meddwl yn ddiffygiol, ac nad oedd y ddarpariaeth bresennol bob amser yn effeithiol:

> *Yn ychwanegol, cyfeiriodd cyfranogwyr yr ymchwil yn aml at fater iechyd meddwl a'r effaith sylweddol mae hiliaeth wedi'i chael ar eu hiechyd meddwl. Maent wedi dadlau am well gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru ac am gynnydd yn y nifer o gwnselwyr o gefndiroedd ethnig tebyg.*
>
> **Panel Cynghori Is-Sahara**

Mater arall mewn perthynas ag iechyd meddwl yw y gallai fod gan gymunedau penodol anghenion penodol, neu fod yn fwy tebygol o gyflwyno â materion iechyd meddwl penodol. Gallai ffoaduriaid a cheiswyr lloches, er enghraifft, fod wedi profi trawma sylweddol yn eu gorffennol sy'n effeithio ar eu hiechyd meddwl. Nodwyd gan sawl ffynhonnell y teimlent nad oedd modd i wasanaethau iechyd meddwl gynorthwyo na mynd i'r afael â'r materion penodol yr oeddynt yn eu profi:

> *Yn yr un modd, roedd rhai cyfranogwyr wedi cael profiad o wasanaethau a chymorth iechyd meddwl a oedd yn amhriodol neu nad oedd yn diwallu'u hanghenion. Teimlent nad oedd y gwasanaethau'n gwybod beth roeddynt yn mynd drwyddo, ac nad ydynt yn hwyluso grwpiau lle gall pobl gwrdd ag eraill â phrofiadau tebyg, a fyddai'n galondid iddynt o wybod nad ydynt ar eu pen eu hunain.*
>
> **Diverse Cymru**

7.3 Themâu Ychwanegol

Beth ellir ei wneud?

Nododd yr ymatebion yr hyn maent yn eu hystyried yw'r camau angenrheidiol y dylid eu cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ceir galwadau am newid mewn diwylliant ymysg staff gofal cymdeithasol lle gallant werthfawrogi yr amrywiaeth o faterion y gallai pobl o bob ethnigrwydd gyflwyno â hwy, a'u bod yn ymwneud â hwy yn ddiwylliannol sensitif a pharchus. Ceir galwadau hefyd am gynyddu amrywiaeth ar draws y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol i gyfrannu at ymdrechion i wella profiadau a chanlyniadau i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau:

> *Yn ddealladwy, mae'r awgrymiadau a wnaed* [ar draws yr ymatebion] *yn cyfeirio at ddiwylliant ymysg gweithwyr meddygol proffesiynol sydd angen newid. Mae angen i weithwyr meddygol proffesiynol gael eu hyfforddi'n well er mwyn mynd i'r afael yn benodol ag unrhyw debygrwydd y byddant yn wahaniaethol a hiliol. Mae angen bod disgwyliad clir nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion a'u bod yn cael eu disgyblu'n briodol pan gaiff ei ganfod bod adroddiadau o gleifion yn rhoi gwybod am hiliaeth, boed yn systemig neu fel arall.*
>
> **Mae Bywydau Du o Bwys**

8 Tai a Llety

8.1 Profiadau

I Ba Raddau mae Tai ar Gael ac yn Fforddiadwy

Roedd ymdeimlad cyffredinol bod prinder ar draws pob math o lety a daliadaeth, gan gynnwys rhentu a pherchnogaeth. Roedd hyn yn rhwystr sylweddol i bobl a chymunedau wrth sicrhau llety o ansawdd da. Roedd hyn yn amlwg, er enghraifft, ymysg cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr:

Nid oes digon o lety i'r holl Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Mae llawer o Sipsiwn yng Nghymru sydd bellach yn byw mewn tai ond sy'n dymuno y gallent fyw mewn trelar. Mae angen i fwy o safleoedd gael eu hadeiladu ledled Cymru. Rwyf wedi bod yn ymwneud â grwpiau llywio ac asesiadau o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ac yn anffodus y ni fel cymuned yw'r olaf bob amser i glywed beth sy'n digwydd. Mae angen i'r cyngor siarad mwy gyda ni a chlywed ein barn.

TGP Cymru

Mynegwyd pryderon hefyd yn ymwneud â'r graddau mae tai ar gael ac yn fforddiadwy, gan gynnwys tai cymdeithasol. Cyfeiriodd rhai ymatebion at y mater bod cyflogau isel a thangyflogaeth, sy'n gyffredin mewn llawer o gymunedau, yn cyfyngu ar y dewis o dai a llety y gallent eu cael. Roedd cyflogau isel a diweithdra, er enghraifft, yn cynyddu'r risg bod pobl yn wynebu cael eu troi allan, a bod hon yn sefyllfa a waethygwyd gan COVID-19. Yn fwy cyffredinol, gallai diffyg tai addas arwain at ganlyniadau difrifol i bobl a chymunedau, gan gynnwys profiadau o ddigartrefedd:

Roeddwn i'n ddigartref am flynyddoedd, yn byw heb doiled na chawod, ac wedyn mi gefais fy mhlant, a chael trafferth gyda'r plant. Roeddwn i'n byw mewn trelar ar ddreif pobl a doeddwn i ddim yn gallu cael dŵr bob amser, hyd yn oed. Roedd cyngor X yn gwahaniaethu yn fy erbyn i, oherwydd fy niwylliant. Cefais fy ngorfodi i fynd i mewn i dŷ am mai dyna'r unig ffordd y gallwn i gael toiled a bath i fy mhlant. Does yna ddim system ddigartrefedd i Sipsiwn a Theithwyr.

TGP Cymru

Byw mewn Llety a Rennir

I rai sy'n byw mewn llety a rennir, dwedwyd bod gofodau a rennir yn cynnig eu heriau eu hunain i unigolion o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r materion sy'n ymwneud â llety a rennir yn cynnwys grwpiau lleiafrifol yn destun ymddygiad gwahaniaethol, gan gynnwys cael eu targedu oherwydd eu hil neu ethnigrwydd:

Mae'r ymatebion yn nodi bod llety a rennir yn cyflwyno baich "ymddygiad gwrthgymdeithasol" sy'n cynnwys "gwahaniaethu".

Mae Bywydau Du o Bwys

Ymdrin â Landlordiaid

Roedd byw mewn llety rhent hefyd yn cyflwyno heriau'n ymwneud ag ymdrin â landlordiaid, yn y sectorau tai preifat a chymdeithasol. Mae llawer o unigolion yn cyfeirio at anawsterau gyda'u landlordiaid mewn perthynas â sicrhau bod cynnal a chadw ac atgyweiriadau'n cael eu gwneud, a nodwyd bod hyn yn fater sydd wedi cynyddu ers pandemig COVID-19 gan fod pobl yn treulio mwy o amser gartref. Roedd rhai yn teimlo bod y materion neu broblemau'r oeddynt yn eu codi wedi'u hanwybyddu. Meddai eraill eu bod wedi profi hiliaeth a gwahaniaethu gan landlordiaid:

Dro ar ôl tro, maent wedi cyfeirio at ddigwyddiadau hiliol i'w cymdeithas tai, ond mae'r rhain wedi'u gwrthod a heb gael eu hystyried o ddifri o gwbl. Mewn un achos, gwnaeth y gymdeithas tai ddweud celwydd a bygwth troi'r cyfranogwr allan ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ôl iddynt eu hamddiffyn eu hunain yn erbyn hiliaeth.

Diverse Cymru

Gwahaniaethu Cymunedol

Yn fwy cyffredinol yn y cymunedau mae pobl yn byw ynddynt, roedd yr adroddiadau'n tynnu sylw at ba mor gyffredin yw i bobl brofi gwahaniaethu a hiliaeth. Roedd hyn yn effeithio'n negyddol ar eu gallu i ymgysylltu a chyfranogi yn eu cymunedau lleol, sydd o bosibl yn gwaethygu'u profiad o allgáu cymdeithasol ac o fod wedi'u hynysu:

Mae [un] cyfranogwr wedi profi gwahaniaethu a digwyddiadau o gasineb gyda'u cymdogion. Nid oeddynt wedi nodi mai achos o wahaniaethu neu brofiad negyddol oedd y materion diddiwedd yma gyda'u cymdogion. Gan ddod i gasgliad, cafodd bron i bawb o'r cyfranogwyr brofiadau negyddol. Y prif achosion y gwnaethant eu nodi ar gyfer y profiadau hyn oedd gwahaniaethu systemig, diffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth ddiwylliannol, stereoteipiau, a rhagfarn. Roedd y fenyw yn dal i fynd ymlaen ac ymlaen. Ac ni ddywedodd neb ddim byd. Fe ddwedodd yn glir "Mae'n rhaid i mi baentio fy hun yn ddu i gael pàs bws am ddim". Felly, roeddech chi'n cael yr holl..., weithiau bydd car yn mynd heibio i chi, maen nhw'n eich galw'n "derfysgwr" neu "ewch yn ôl adref" a'r pethau yna. Felly rydych chi'n cyfarwyddo ag e. Am weddill eich bywyd, rydych chi'n byw fan yma, rydych chi'n cyfarwyddo ac wedyn rydych chi'n meddwl ei fod yn normal, wyddoch chi.

Diverse Cymru

8.2 Canlyniadau

Cyflwr Gwael ar Dai

Roedd cyflwr ac ansawdd gwael ar dai yn bryder allweddol yr oedd llawer wedi'i brofi. Tynnwyd sylw at faterion fel lleithder neu lety mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. Roedd rhai hefyd yn nodi bod diffyg dodrefn mewn llety rhent neu dai cymdeithasol yn fater o bwys.

Mae rhai teuluoedd â phlant bach yn byw mewn fflatiau un ystafell wely. Mae tai yn dadfeilio ac 'Mae popeth wedi torri'. Mae angen gwelliant helaeth ar dai a chynnal a chadw i geiswyr lloches. I'r rhai sy'n rhentu, mae tai yn aml yn orlawn heb le i'r plant astudio. Mae'r ceiswyr lloches hynny a adroddodd am faterion cynnal a chadw yn eu llety wedi gorfod ffonio Migrant Help i orfodi eu rheolwr tai i fynd i'r afael â'r materion.

Race Council Cymru (Abertawe)

Gorlenwi

Roedd gorlenwi yn ystyriaeth a thema allweddol a gododd ar draws yr ymatebion. Roedd maint bach llawer o'r llety sydd ar gael ac sy'n fforddiadwy, ynghyd â'r posibilrwydd bod gofyn i nifer mawr o bobl fyw yn y gofod hwnnw, yn cael ei ystyried yn bryder allweddol, yn arbennig yng ngoleuni heriau COVID-19. Roedd enghreifftiau hefyd, er enghraifft, lle byddai gorlenwi yn ganlyniad i dai i sawl cenhedlaeth, yn arbennig mewn lleoliadau tai cymdeithasol.

Y prif fater a adroddwyd oedd cydnabod tai amlgenhedlaeth. Wrth gael mynediad i dai cymdeithasol, nid oedd hyn yn cael ei ystyried, gan adael tenantiaid yn aml mewn tai gorlawn nad oedd yn diwallu eu hanghenion.

Race Council Cymru (Casnewydd)

Er bod y rhan fwyaf o'r adroddiadau yn tynnu sylw at fater gorlenwi, awgrymodd un cyflwyniad ei bod yn bosibl nad dyma'r achos mewn cymunedau mwy gwledig:

Yn gyffredinol, nid oes llawer i awgrymu bod ein hymatebwyr yn byw mewn llety gorlawn, fel y gellid ei ddisgwyl mewn ardaloedd metropolitan neu ardaloedd o aneddiadau BME yn hen drefi diwydiannol gogledd Lloegr.

Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru

Anallu i Fforddio Tai

Pryder allweddol ynglŷn â thai oedd anallu llawer o bobl a chymunedau, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, i gael mynediad at y farchnad dai a bod yn rhan ohoni. O'r safbwyntiau hyn, roedd cyflogau isel, tlodi, a gwahaniaethu systemig ehangach yn golygu bod rhai grwpiau mewn llai o fodd i sicrhau arian a phrynu eu cartrefi eu hunain. O'r safbwyntiau hyn, mae anghydraddoldebau o ran cyfleoedd a chanlyniadau, yn arbennig mewn perthynas ag addysg, cyflogaeth ac incwm, yn effeithio ar allu pobl i sicrhau

sicrwydd ariannol drwy gronni asedau. Yn ei dro, gallai hyn barhau ac atgyfnerthu anghydraddoldebau yn y gymdeithas:

Oherwydd eu hincwm isel a natur dros dro eu swyddi, mae llawer o bobl BAME sydd ddim yn gymwys i gael morgeisi neu gael eu troed ar yr ysgol eiddo. O ganlyniad i hyn, roeddynt yn parhau mewn llety tenantiaeth am weddill eu bywydau.

Mae Bywydau Du o Bwys

9 Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth

9.1 Profiadau

Yr Angen am Arweinyddiaeth Fwy Amrywiol

Ar draws yr ymatebion, tynnwyd sylw at bwysigrwydd adlewyrchu a chynrychioli amrywiaeth o leisiau a chefndiroedd pobl a chymunedau ledled Cymru mewn arweinyddiaeth. Roedd hyn o safbwynt sicrhau y caiff y lleisiau hyn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau, ond hefyd wrth sicrhau y gall y grwpiau hyn gyfranogi'n fwy ystyrlon yn y gymdeithas. O'r safbwyntiau hyn, cafwyd cydnabyddiaeth ymhlyg ac eglur nad yw arweinyddiaeth yn gynrychioliadol o amrywiaeth lawn pobl Cymru, o ran aelodaeth deddfwriaethau a sefydliadau, ac o ran cynnwys barn a safbwyntiau wrth lunio polisi.

> *Mynegodd cefnogwyr Mae Bywydau Du o Bwys Cymru 'ie' clir i gael arweinyddiaeth fwy amrywiol i gynorthwyo gwell dealltwriaeth o anghenion pobl yng Nghymru. Rhagwelwyd y byddai anawsterau â chyfathrebu yn cael eu goresgyn gan gamau o'r fath a chreu mwy o gyfleoedd i bobl rannu eu safbwyntiau.*
>
> **Mae Bywydau Du o Bwys**

Diffyg Gwybodaeth am Lywodraeth Cymru

Rhwystr allweddol i ymwneud â'r cylch cyhoeddus y cyfeiriwyd ato ar draws yr ymatebion oedd gwybodaeth a dealltwriaeth am gylch gwaith Llywodraeth Cymru, sut caiff penderfyniadau eu gwneud, a sut mae pobl a chymunedau yn ymgysylltu â llunio polisi:

> *Mae ein harolwg wedi dangos yn glir bod llawer o bobl Sipsiwn, Roma a Theithwyr sydd ddim yn ymwybodol o'u hawliau; sydd yn brin eu gwybodaeth, os oes ganddynt o gwbl, am strategaethau, cynlluniau gweithredu a pholisïau Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb a hil; sy'n credu nad yw Llywodraeth Cymru yn cydnabod nac yn parchu hawliau ac anghenion Romani a Theithwyr; sydd â phrofiad o swyddogion llywodraeth leol heb unrhyw ddealltwriaeth o ddiwylliannau Romani a Theithwyr nac unrhyw barch at y naill na'r llall.*
>
> **Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani**

Rhestrau Byr sy'n cynnwys pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn unig

Thema arall a archwiliwyd ar draws yr adroddiadau oedd rôl rhestrau byr sy'n cynnwys pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn unig ar gyfer swyddi arweinyddol penodol, gan gynnwys penodiadau gwleidyddol. Lle y codwyd y thema hon, roedd yn ymddangos bod cefnogaeth i'r ymagwedd hon er mwyn sicrhau bod arweinyddiaeth yn fwy cynrychioliadol o wahanol bobl a chymunedau:

Gofynnodd yr arolwg wedyn a ddylai fod cytundeb trawsbleidiol ynglŷn â rhestr fer i bobl BAME yn unig i sicrhau mwy o amrywiaeth mewn cynrychiolaeth wleidyddol yng Nghymru. Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn cytuno. "Byddai'n hyfryd cael pob cymuned wedi'i chynrychioli".

Race Council Cymru (Gogledd Cymru)

9.2 Canlyniadau

Gwella ymgysylltiad a chyfranogiad

Ar draws yr ymatebion, teimlwyd y byddai arweinyddiaeth fwy amrywiol o gymorth i gynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad gan gymunedau lleiafrifol ledled Cymru. Yn ymhlyg yn y safbwyntiau hyn roedd ymdeimlad bod diffyg amrywiaeth yn rhwystr i gyfranogi ac ymgysylltu'n ystyrlon:

> *Mae gobaith y byddai mwy o amrywiaeth* [mewn arweinyddiaeth] *yn helpu pobl i ffynnu, i gyflawni, i arweinwyr fod yn fwy hygyrch a haws uniaethu â hwy, i gael mwy o gyfle i ymgynghori ag arweinwyr a chreu esiamplau da i genedlaethau'r dyfodol. Mae ymdeimlad cryf y byddai unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi lawer mwy ac mewn gwell sefyllfa i gyfrannu'n gadarnhaol i Gymru. Ac mae ymdeimlad dwfn, o gael gwell cynrychiolaeth, na fyddai storïau'n cael eu "hanghofio neu'u hanwybyddu".*
>
> **Mae Bywydau Du o Bwys**

10 Casgliadau

Gyda'i gilydd, ymgysylltodd y sefydliadau â bron i 2,000 o bobl o bob rhan o Gymru er mwyn deall eu profiadau go iawn o hiliaeth a gwahaniaethu. Maent yn cynnwys lleisiau o amrywiaeth o gymunedau, cefndiroedd, a thraddodiadau, ac yn tynnu sylw at yr amrywiaeth sydd yng nghymdeithas gyfoes Cymru. Mae'r ymatebion yn darparu tystiolaeth bwerus a theimladwy am natur a goblygiadau byw â hiliaeth a gwahaniaethu.

Mae profiadau go iawn a safbwyntiau pobl a chymunedau yn bwysig er mwyn deall ac ymateb i hiliaeth, gwahaniaethu, ac anghydraddoldeb. Mae'n helpu i daflu goleuni ar rôl a deinameg rhyngblethedd gan gynnwys y ffyrdd mae hil ac ethnigrwydd yn rhyngblethu â ffactorau eraill megis statws economaidd-gymdeithasol, rhywedd, cred grefyddol ac anabledd wrth ffurfio profiadau a chanlyniadau. Ochr yn ochr â data meintiol ehangach sy'n dangos maint yr anghydraddoldebau mae pobl a chymunedau yn eu profi, gall profiadau go iawn dynnu sylw at natur hiliaeth, sut mae'n gweithredu, a'r effaith y gall ei chael. Mae deall a dadansoddi disgrifiadau naratif o hiliaeth a'r effaith y gall ei chael yn cynnig sylfaen dystiolaeth bwysig er mwyn ymateb i'r materion sy'n cael eu codi ganddynt, gan gynnwys drwy ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

Hiliaeth a Gwahaniaethu

Mewn sgyrsiau gyda phobl a chymunedau, mae'r ymatebion yn tynnu sylw at amrywiaeth enfawr o ffyrdd y gall gwahaniaethu hiliol weithredu, a'r effaith y gall ei chael. Mae hyn yn cynnwys hiliaeth agored, megis troseddau casineb a thrais hiliol llafar, yn ogystal â hiliaeth gudd, megis micro-ymosodiadau a rhagfarnau diarwybod sy'n llywio rhyngweithiadau. Mae'r ymatebion hefyd yn disgrifio hiliaeth sefydliadol, gan gynnwys proffilio a gwahaniaethu ystadegol, sy'n arwain at driniaeth wahanol i bobl o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gan sefydliadau a mudiadau cyhoeddus a phreifat.

Roedd yr ymatebion hefyd yn tynnu sylw at achosion neu sefyllfaoedd penodol iawn sy'n effeithio ar bobl neu gymunedau penodol, yn ogystal â thueddiadau trosfwaol sy'n ffurfio anghydraddoldebau yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys gwahaniaethu penodol mae cymunedau penodol yn ei brofi, megis cymunedau Mwslimaidd Cymru ac Islamoffobia. Roedd ymatebion eraill yn tynnu sylw at hiliaeth a gwahaniaethu cyffredinol mae pobl yn eu profi ar draws llawer o agweddau ar eu bywyd, gan gynnwys pobl sydd â threftadaeth Ddu neu gymysg eu hil.

Gall effeithiau allgáu yn sgil hiliaeth a gwahaniaethu fod yn ddifrifol. Mae'r ymatebion yn amlinellu sut gall hiliaeth gyfrannu at wthio pobl a chymunedau i'r cyrion mewn ffyrdd sy'n eu distewi ac yn parhau ac atgyfnerthu anghydraddoldebau, gan gynnwys mewn perthynas â chyfleoedd a chanlyniadau. Ar lefel unigol, gall profiadau o hiliaeth a gwahaniaethu hefyd achosi trawma, cynyddu ynysigrwydd cymdeithasol a thanseilio llesiant, yn arbennig mewn perthynas ag iechyd meddwl pobl.

Goblygiadau Posibl i'r Cynllun Gweithredu

Yn ogystal â'r hiliaeth a'r gwahaniaethu mae pobl a chymunedau yn eu profi mewn lleoliadau a meysydd polisi penodol, roedd yr ymatebion hefyd yn tynnu sylw at ddiffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol, mewn rhyngweithiadau unigol, ac ar lefel sefydliadol. Roedd yr ymatebion yn disgrifio achosion lle roedd pobl wedi'u trin mewn ffyrdd a oedd yn ansensitif i'w anghenion, credoau diwylliannol, neu draddodiadau penodol.

Ar y llaw arall, roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at brofiadau a diolchgarwch am wasanaethau a chymorth a oedd yn gadarnhaol a diwylliannol sensitif. Mae hyn yn awgrymu y gallai gwella ymwybyddiaeth ddiwylliannol mewn gwasanaethau cyhoeddus ac ar draws gwasanaethau fod yn llwybr gwerthfawr i wella ymddiriedaeth ac ymgysylltiad. Mewn ymatebion, nodwyd y gallai mwy o hyfforddiant mewn perthynas ag ymwybyddiaeth ddiwylliannol fynd i'r afael ag ansensitifrwydd yn ogystal ag agweddau cyffredinol a chanfyddiadau o bobl a chymunedau.

Gyda'i gilydd, mae'r hiliaeth, y gwahaniaethu, yr ansensitifrwydd diwylliannol a'r diffyg derbyniad mae pobl yn eu profi yn cyfrannu at danseilio ymddiriedaeth ac ymgysylltiad gan bobl a chymunedau, yn arbennig mewn perthynas â gwasanaethau a chymorth a ddarperir drwy sefydliadau cyhoeddus. Roedd y mater hwn yn cael ei gymhlethu gan ddiffyg llais a chynrychiolaeth, mewn prosesau democrataidd ehangach ar y lefel leol a chenedlaethol, yn ogystal ag o ran dylunio a llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus. Thema drosfwaol allweddol arall yw diffyg deialog a chyfathrebu effeithiol ac ystyrlon rhwng pobl a chymunedau a sefydliadau a mudiadau, cyhoeddus a phreifat.

Mae hyn yn awgrymu y gallai gwell cyfathrebu ynghyd â chyfranogi'n fwy ystyrlon feithrin perthnasoedd mwy cadarnhaol ac ymddiriedaeth rhwng sefydliadau a phobl o gymunedau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae hyn yn cynnwys mwy o ymgysylltu a chyfranogi wrth wneud penderfyniadau a llunio polisi, yn ogystal a gwell cyfathrebu gan wasanaethau cyhoeddus. Mae'r modd mae grwpiau a mudiadau wedi ymgysylltu â'r gymuned i lywio datblygiad y Cynllun Gweithredu yn dangos sut gall hyn cael ei gyflawni.

Roedd hefyd ymdeimlad cyffredinol o rwystredigaeth ag ymdrechion i fynd i'r afael â hiliaeth ac anghydraddoldebau ehangach, gyda rhai'n tynnu sylw at ddiffyg cynnydd ar faterion fel amrywiaeth, cynrychiolaeth ac anghydraddoldebau parhaus o ran cyfleoedd a chanlyniadau. Mynegwyd pryderon hefyd mewn rhai ymatebion nad oedd rhai elfennau o ymgynghori ac ymgysylltu'n arwain at gynnydd. Roedd hyn yn cyfrannu ymhellach at danseilio ymddiriedaeth mewn sefydliadau i sicrhau newid go iawn ac yn rhwystr i ddenu ymgysylltiad cadarnhaol gan bobl a chymunedau.

Wrth ymateb i'r pryderon hyn ynglŷn â llunio polisi, gallai fod yn bwysig dod o hyd i gyfleoedd a mecanweithiau oddi mewn i'r ysgogiadau polisi sydd ar gael i'r Llywodraeth a fydd yn cyflawni newidiadau mwy uniongyrchol a diriaethol i fywydau pobl. Gall natur gymhleth, hanesyddol a sefydledig yr hiliaeth a'r rhagfarnau y mae rhai yn y gymdeithas yn eu coleddu gyfyngu ar ba mor effeithiol a chyflym y gall polisi newid agweddau a rhagfarnau unigolion a chyfunol sy'n sylfaen i dueddiadau hiliol. Gallai polisi fod ar ei fwyaf effeithiol wrth greu amgylchedd mwy cynhwysol, sy'n hybu goddefgarwch ac yn herio anoddefgarwch ar lefel

sefydliadol. Gallai sicrhau bod yr holl ysgogiadau polisi'n gweithio tuag at y nodau hyn, gan gynnwys drwy gynrychiolaeth, rheoleiddio, cyllido, eiriolaeth a phartneriaethau, olygu bod ymatebion polisi yn fwy effeithiol a chyflawni cynnydd mwy diriaethol i bobl a chymunedau.

Roedd yr ymatebion hefyd yn dangos bod yr heriau a'r rhwystrau sy'n cael eu cyflwyno gan hiliaeth a gwahaniaethu yn cael eu cymhlethu gan ffactorau eraill, gan gynnwys rhywedd rhywun, lle mae'n byw, a'i statws economaidd-gymdeithasol. Nododd rhieni, a mamau yn arbennig, er enghraifft, eu bod yn profi heriau penodol sy'n effeithio ar eu gallu i gyfranogi mewn cymdeithas, yn arbennig mewn perthynas â chael mynediad at waith, sy'n cymhlethu'r rhwystrau maent wedi'u profi oherwydd eu hethnigrwydd.

Mae hyn yn awgrymu y gallai fod galw am ymatebion polisi cydlynol ar draws meysydd sylweddol o'r Llywodraeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Cyfeiriodd yr ymatebion at yr anghydraddoldebau iechyd y mae pobl o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn eu profi, a allai fod yn gysylltiedig hefyd ag anghydraddoldebau'n ymwneud â gwahaniaethau mewn cyflogaeth ac incwm. Gallai atebion sy'n ceisio mynd i'r afael â'r naill heb y llall, felly, fod yn llai effeithiol o ran sicrhau gwell cydraddoldeb, gan gynnwys o ran canlyniadau.

Goblygiad allweddol i'r Cynllun Gweithredu yw mynd i'r afael â'r hiliaeth a'r gwahaniaethu sylfaenol sy'n ffurfio profiadau pobl ac y tynnwyd sylw atynt ar draws yr ymatebion. Roeddynt yn aml yn nodi bod yr hiliaeth y maent yn ei phrofi yn deillio o sefyllfa o ddiffyg dealltwriaeth ac empathi, yn ogystal ag o safbwyntiau a thueddiadau rhagfarnllyd. O'r safbwyntiau hyn, roedd hyrwyddo a dathlu amrywiaeth a gwahanol ddiwylliannau a thraddodiadau yn bwysig; gan godi'u proffil a herio naratifau a stereoteipiau negyddol a rhagfarnllyd. Gallai hefyd gyfrannu at wella dealltwriaeth a gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau, sy'n fan cychwyn pwysig i newid canfyddiadau ac agweddau.

Roedd addysg yn fwy cyffredinol yn cael ei ystyried yn benodol o bwysig ar draws yr ymatebion. Roedd hyn yn cynnwys cyflawni cwricwlwm mwy amrywiol a chynhwysol sy'n galluogi'r holl blant a phobl ifanc i archwilio a deall gwahaniaeth. O'r safbwyntiau hyn, gallai addysg weithio i sbarduno newidiadau hirdymor yn y canfyddiad sydd o bobl o gymunedau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a sut y cânt eu drin yn y gymdeithas. Ystyriwyd mai addysg hefyd yw'r sail i fynd i'r afael â materion eraill mae pobl a chymunedau yn eu profi, gan gynnwys mynd i'r afael â diffyg cyfleodd a thlodi. O'r safbwyntiau hyn, roedd gwella cyfleoedd addysg a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau canlyniadau ym myd addysg yn fan cychwyn pwysig i hybu mwy o gydraddoldeb ledled Cymru.

Atodiad 1: Ymatebion

Mae'r adran hon yn amlinellu'r mudiadau a gynorthwyodd ac a hwylusodd y gwaith o ymgysylltu â'r gymuned. Y mae hefyd, lle y bo'n bosibl, yn disgrifio'r cymunedau y gwnaethant ymgysylltu â hwy i ddeall profiadau go iawn cymunedau ledled Cymru.

Antur Cymru

Menter gymdeithasol sy'n eiddo i'r gymuned yw Antur Cymru. Mae'n gweithio gyda chymunedau i hybu twf a gweithgarwch economaidd. Mae'n cynnig amrywiaeth o gymorth a chyngor sy'n annog, meithrin a hyrwyddo busnesau llwyddiannus sy'n gweithio mewn cymunedau.

Fel rhan o'r ymgysylltu â'r gymuned, ymgysylltodd Antur Cymru â menywod sy'n rhan o'r cymunedau o Ffoaduriaid o Syria ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys. Drwy amryw ddulliau ymgysylltu, gan gynnwys holiadur cyffredinol a nifer o weithdai grŵp ar-lein, casglodd Antur Cymru farn a phrofiadau'r menywod hyn mewn perthynas â'r meysydd thematig sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Gweithredu. Siaradodd Antur â Chyfanswm o 65 o fenywod ar draws y gymuned.

Avant Cymru

Cwmni theatr blaengar o gymoedd de Cymru yw Avant Cymru. Maent yn creu gweithgarwch theatr, dawns, Hip Hop ac artistig sy'n berthnasol ac unigryw, gyda'r gymuned ac i'r gymuned, ac yn hyrwyddo'r gwaith yma yn lleol ac ymhell. Eu nodau yw cyfoethogi ac ysbrydoli pobl a sicrhau dathlu, cadwraeth ac adfywio cymunedol.

Cyflwynodd Avant ymateb fideo sy'n seiliedig ar leisiau oddi mewn i'r cwmni theatr ac ar draws y cwmni. Archwiliwyd amrywiaeth o faterion yn ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, gan gynnwys cyfleoedd i archwilio, datblygu a rhannu ymarfer artistig, yn ymwneud â dawns yn benodol. Mae modd gweld ymateb Avant drwy'r ddolen hon.

Mae Bywydau Du o Bwys Cymru

Mudiad yw Mae Bywydau Du o Bwys Cymru (BLM Cymru) sy'n cael ei arwain gan unigolion sy'n cydsefyll yn erbyn anghyfiawnderau hiliol y mae pobl ddu yn eu profi yng Nghymru ac yn fyd-eang. Ei nod yw dwyn ynghyd rwydwaith o arweinwyr protestiadau rhanbarthol BLM i gydweithio i yrru ymlaen ar y galwadau allweddol ym Maniffesto BLM Cymru, a luniwyd ar y cyd rhwng yr holl aelodau ledled Cymru.

Er mwyn ymgysylltu â chymunedau, rhannodd BLM Cymru holiadur y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a luniwyd gan Race Council Cymru. Nod yr holiadur oedd canolbwyntio ar brofiad go iawn pobl sydd â nodweddion gwarchodedig (hil). Cyfrannodd cyfanswm o 113 o gyfranogwyr eu barn. Rhannodd pobl eu profiadau o Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol,

Cyflogaeth ac Incwm, Tai, Troseddu a Chyfiawnder, Diwylliant, Treftadaeth a Thwristiaeth, Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth yng Nghymru.

Y Ganolfan Astudiaethau Islam a Chyngor Mwslimiaid Cymru

Gwnaeth y Ganolfan Astudiaethau Islam yn y DU ym Mhrifysgol Caerdydd, gyda chymorth Cyngor Mwslimiaid Cymru, ymgysylltu â chymunedau Mwslimaidd ledled Cymru. Mae'r Ganolfan Astudiaethau Islam yn y DU yn ganolfan ymchwil amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar archwilio bywydau cymunedau Mwslimaidd ledled Prydain. Mae Cyngor Mwslimiaid Cymru yn gysylltiedig â Chyngor Mwslimiaid Prydain Fawr ac yn fudiad ymbarél eang i wasanaethu anghenion y gymuned Fwslimaidd ledled Cymru.

Drwy amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu, gan gynnwys grwpiau trafod ac arolwg ar-lein, roedd yr ymchwil yn ceisio deall profiadau'r gymuned o gydraddoldeb, hiliaeth, Islamoffobia, a gwahaniaethu. Ymgysylltodd yr ymchwil â 51 o Fwslimiaid Cymru o amryw oedrannau, rhyweddau, cefndiroedd ac ethnigrwydd. Gwnaeth yr arolwg ar-lein, er enghraifft, ymgysylltu â 24 o ymatebwyr. O'r rhain, roedd 62.5 y cant o'r ymatebwyr yn wrywod, a 37.5 y cant yn fenywod. Cafwyd amrywiaeth eang o oedrannau, o 19 i dros 60 oed, gyda 41.7 y cant o'r ymatebion yn dod o'r band oedran 19-29. Mae cefndiroedd ethnig yr ymatebwyr yn dilyn yr un patrwm â'r grwpiau trafod, gyda chefndiroedd Asiaidd wedi'u cynrychioli fwyaf; Pacistanaidd (19.2 y cant) a Bangladeshaidd (25 y cant). Roedd ymatebwyr eraill o darddiad ethnig Arabaidd (8.3 y cant), Gwyn (8.3 y cant), Cymysg (8.3 y cant) ac Affricanaidd (4.2 y cant).

Diverse Cymru

Elusen Gymreig yw Diverse Cymru sydd wedi ymrwymo i gynorthwyo pobl sy'n wynebu anghydraddoldeb a gwahaniaethu oherwydd oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Diverse Cymru yn ceisio grymuso pobl a chymunedau drwy amrywiaeth o gymorth, gan gynnwys cyngor ac eiriolaeth, taliadau uniongyrchol, a darparu gwasanaethau iechyd meddwl.

Gan wrando ar leisiau oddi mewn i'r gymuned, aeth Diverse Cymru ati i geisio deall amryw agweddau ar fywydau pobl. Roedd hyn yn cynnwys profiadau cadarnhaol a negyddol, gan gynnwys yn ymwneud â gwahaniaethu. Roeddynt hefyd yn archwilio'r hyn sy'n bwysig i bobl a chymunedau, a beth fyddai'n gwneud eu bywydau'n well. Wrth ddeall profiadau pobl a chymunedau, ymgysylltodd Diverse Cymru ag oedolion a phobl ifanc Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn hunan-ddiffinio eu hunain yn Ddu.

Cymdeithas Ddiwylliannol Hindŵaidd Cymru

Ymddiriedolaeth elusennol yw Cymdeithas Ddiwylliannol Hindŵaidd Cymru sy'n cael ei rhedeg gan y gymuned Indiaidd yng Nghymru. Ei nod yw hwyluso'r gymuned Indiaidd i integreiddio'n llyfn yn y gymuned leol ehangach. Mae'r Gymdeithas yn darparu cyfleoedd ac adnoddau i gymunedau Indiaidd a lleol o bob cefndir, gan gynnwys darparu synnwyr o hunaniaeth i'r gymuned ban-Indiaidd yn ne Cymru. Nod y Gymdeithas yw datblygu a dathlu

diwylliant, gwerthoedd a thraddodiadau Indiaidd drwy addysg, hyfforddiant a gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol, a hybu integreiddio, cytgord, amrywiaeth a chydraddoldeb.

Er mwyn ymgysylltu â chymunedau, canolbwyntiodd y Gymdeithas ar brofiadau pobl yn eu gweithle, eu hanghenion iechyd a llesiant a'u profiadau o gael mynediad i gymorth, yn gadarnhaol a negyddol. Drwy'r sgyrsiau, tynnwyd sylw at agweddau pwysig megis hiliaeth a heriau iechyd meddwl sy'n wynebu pobl a chymunedau. Drwy arolwg ar-lein, ymgysylltodd y Gymdeithas â 137 o bobl o amrywiaeth eang o oedrannau, cymunedau a chefndiroedd. Ymgysylltodd y Gymdeithas â phobl o dreftadaeth Affricanaidd, Bangladeshaidd, Tsieineaidd, Indiaidd, Pacistanaidd a Ffilipinaidd, ymysg eraill.

Horn Development Association

Mae Horn Development Association yn darparu amrywiaeth o gymorth i gymunedau sy'n byw ledled Caerdydd, gan gynnwys yn Butetown, Grangetown a Glan yr Afon. Nod y Gymdeithas yw darparu amrywiaeth eang o wasanaethau a chymorth i'r gymuned, gan gynnwys cyfleoedd i gymunedau ddod ynghyd ar sail cerddoriaeth, bwyd a chwaraeon. Mae'r Gymdeithas hefyd yn darparu cyfleoedd dysgu heb fod yn ffurfiol, gan gynnwys hyfforddiant a chymwysterau. Mae'r Gymdeithas eisiau rhoi'r cyfle i gymaint o bobl â phosibl ddatblygu hyder, ysgogiad a chyfleoedd i wella eu bywydau.

Er mwyn ymgysylltu â chymunedau sy'n byw ledled Caerdydd, dosbarthodd y Gymdeithas holiadur ar-lein ac ar ffurf copi caled. Ymgysylltodd y Gymdeithas â chyfanswm o 256 o deuluoedd sy'n ystyried eu hunain yn Ddu, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig. Roeddynt yn casglu barn a safbwyntiau pobl ar draws y gwahanol feysydd thematig a nodwyd gan y Cynllun Gweithredu, gan gynnwys cyflogaeth, iechyd, ac ymgysylltu â'r gymuned. Ni cheisiodd y Gymdeithas gofnodi hunaniaethau hil na diwylliannol yr ymatebwyr (megis Indiaidd neu Somalïaidd), gan geisio yn hytrach sicrhau bod y ffurflenni'n cael eu llenwi gan bobl BAME a'u teuluoedd. Roedd hyn oherwydd cyfyngiadau ymddangosiadol dosbarthiadau mwy cyffredin o hil ac ethnigrwydd nad ydynt yn adlewyrchu hunaniaeth a phrofiad yn gywir, yn arbennig y teuluoedd hynny sy'n ystyried eu hunain yn gymysg eu hil.

KIRAN

Mudiad nid er elw yw'r Rhwydwaith Cysylltiadau Rhyng-Gymunedol Seiliedig ar Wybodaeth (KIRAN) sy'n seiliedig yn y Deyrnas Unedig. Sefydlwyd KIRAN i hybu ymgysylltiad cymunedol ar sail gwybodaeth. Ei nod yw meithrin yr arfer, yn seiliedig ar wybodaeth, o dderbyn gwahanol ddiwylliannau, treftadaeth a thraddodiadau sy'n gyffredin ymysg amryw gymunedau yn y Deyrnas Unedig. Mae KIRAN yn gweithio'n bennaf i bobl yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Mae'n trefnu llawer o raglenni wythnosol a misol er mwyn ymgysylltu ag aelodau'r gymuned a lleihau ynysigrwydd cymdeithasol. Mae ei holl raglenni wedi'u llunio ar gyfer cymunedau lleol, gan gymunedau lleol.

Er mwyn ymgysylltu â chymunedau, paratôdd KIRAN holiadur (gyda chwestiynau penagored) i gasglu barn am gydraddoldeb hil yn ein cymunedau. Dosbarthwyd yr arolwg drwy amryw sianeli, gan gynnwys drwy Facebook, WhatsApp ac e-bost. Cynhaliwyd fforymau ar-lein hefyd,

yn ogystal â chyfweliadau manylach. Ymatebodd cyfanswm o 352 o bobl o wahanol deuluoedd yn ddienw, ac ni chasglwyd unrhyw ddata personol e.e. enw, cyfeiriad, ffotograffau.

Mudiad Meithrin

Mae'r Mudiad Meithrin yn elusen gofrestredig sy'n arbenigo mewn gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar. Ei nod yw rhoi i bob plentyn ifanc yng Nghymru, waeth beth yw eu cefndir, y cyfle i gael mynediad at wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Mudiad Meithrin yn cynnig amryw wasanaethau a chymorth, gan gynnwys grwpiau 'Cymraeg i Blant', Cylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Dydd. Mae'n hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg gyda'r nod o greu mwy o siaradwyr Cymraeg ifanc yng Nghymru erbyn 2050.

Er mwyn ymgysylltu â phobl a chymunedau, siaradodd y Mudiad Meithrin ag 16 o unigolion. Rhoddodd pob cyfranogwr ddisgrifiad naratif manwl, naill ai'n ysgrifenedig neu dystiolaeth bersonol, o'u profiadau o ddefnyddio neu weithio mewn lleoliadau gofal plant. Roedd pob un o'r cyfranogwyr naill ai wedi dewis gofal plant neu addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant eu hunain; wedi bod drwy ofal plant neu addysg cyfrwng Cymraeg eu hunain; wedi dysgu Cymraeg fel oedolion; wedi gweithio ym maes gofal plant neu addysg cyfrwng Cymraeg; wedi bod eisiau dysgu Cymraeg; neu wedi profi cyfuniad o'r rhain.

Fforwm Ieuenctid Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Lleiafrifol Cenedlaethol

Nod y Fforwm Ieuenctid BAME Cenedlaethol yw hybu a rhoi sylw i leisiau pobl ifanc o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig rhwng 11 a 25 oed. Mae'r Fforwm Ieuenctid yn ceisio mynd i'r afael â materion sy'n bwysig i bobl ifanc a'u teuluoedd, a datblygu rhaglenni ac offer eiriolaeth i ymateb i anghenion pobl ifanc. Mae'r Fforwm hefyd yn ceisio cwrdd â phenderfynwyr oddi mewn i Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill i roi adborth ar y materion y mae pobl ifanc yng Nghymru yn eu hwynebu.

Rhoddodd y Fforwm Ieuenctid y dasg i aelodau'r pwyllgor i ymgysylltu â phobl ifanc ledled Cymru. Gan ddefnyddio'r arolwg a ddatblygwyd gan Race Council Cymru, ymgysylltodd y Fforwm â phobl ifanc drwy amryw ddulliau, gan gynnwys arolwg ar-lein, dros y ffôn, a thrwy grwpiau ffocws ar-lein. Roedd yr ymchwil yn archwilio profiadau pobl ifanc ar draws y gwahanol feysydd polisi a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu. Siaradodd y Fforwm Ieuenctid â chyfanswm o 65 o gyfranogwyr ledled Cymru. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hunan-nodi eu hethnigrwydd, a chofnodwyd 21 ethnigrwydd.

Cymdeithas Gymunedol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Castell-nedd Port Talbot

Mae Cymdeithas Gymunedol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Castell-nedd Port Talbot yn ceisio cynrychioli gweledigaeth a llais cymunedau ledled Castell-nedd Port Talbot a thu hwnt. Drwy amrywiaeth o weithgareddau a chymorth, mae'r Gymdeithas yn ceisio hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth er budd y gymuned. Nod y Gymdeithas yw dathlu amrywiaeth ddiwylliannol, a hybu cydlyniant cymunedol. Y mae hefyd yn ceisio grymuso aelodau

cymunedau lleiafrifoedd ethnig i gyfranogi'n llawnach yn y gymdeithas drwy addysg a hyfforddiant. Hefyd, mae'n ceisio darparu llais a bod yn gynrychioliadol o gymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Gwahoddwyd pobl â chefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr, o bob rhan o Gastell-nedd Port Talbot i rannu eu profiadau o fyw yng Nghastell-nedd Port Talbot mewn arolwg ar-lein. Gweithiodd y Gymdeithas mewn partneriaeth â Thîm Diogelwch Cymunedol a Gwasanaeth Dysgwyr Bregus Castell-nedd Port Talbot, i lunio dau arolwg, un wedi'i anelu at oedolion a'r llall at bobl ifanc. Nod yr arolwg oedd cael dealltwriaeth o brofiadau go iawn pobl BAME yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan ganolbwyntio ar dai, cydlyniant cymunedol, addysg a chyflogaeth. Rhoddodd cyfanswm o 143 o bobl o'u hamser i lenwi'r arolwg, gan gynnwys pobl ifanc ac oedolion o amrywiaeth eang o gymunedau sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru

Mae Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru yn fudiad cymunedol o gyfeillgarwch sy'n seiliedig yng Ngwynedd. Carfan o aelodau o blith y gymuned Affricanaidd ar wasgar a phobl sydd â diddordeb yn Affrica yw'r Gymdeithas. Mae'n ceisio cymdeithas fywiog a chynhwysol sy'n cefnogi, integreiddio a chynnal ein cymuned amrywiol. Er mwyn cyflawni'i gweledigaeth, mae'n cynnig amrywiaeth eang o gymorth, gan gynnwys darparu parseli bwyd a chymorth siopa sy'n briodol yn ddiwylliannol, a chyngor ar wasanaethau a chymorth eraill sydd ar gael i bobl.

Aeth y Gymdeithas ati i gasglu barn y gymuned o fyfyrwyr Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n byw yng ngogledd Cymru. Y bwriad oedd archwilio bywyd myfyrwyr yn gyffredinol ac agweddau eraill yn ymwneud â diogelwch, iechyd meddwl, a rhwystrau posibl eraill y mae myfyrwyr BAME yn eu hwynebu yn eu bywydau bob dydd yng ngogledd Cymru. I gynorthwyo datblygiad yr arolwg, i gychwyn casglwyd cofnodion sain a fideo byr gan fyfyrwyr er mwyn canfod y prif bynciau i'w harchwilio yn yr arolwg. Dosbarthwyd yr arolwg wedyn drwy amryw sianeli, Cymdeithas Affro-Garibïaidd Bangor (cymdeithas o fyfyrwyr Du ym Mhrifysgol Bangor) a dolenni eraill y cyfryngau cymdeithasol megis Instagram, Twitter a Facebook. Gwnaeth cyfanswm o 35 o bobl lenwi'r arolwg. Roeddynt yn perthyn i wahanol gefndiroedd ethnig, gan gynnwys o dras Du Affricanaidd a Charibïaidd (91.5 y cant), Asiaidd (5.7 y cant), Du Prydeinig (2.9 y cant). Roedd cyfanswm o 88 y cant o'r ymatebwyr yn fyfyrwyr.

Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru yn hybu cydraddoldeb, ac yn gwrthwynebu hiliaeth, rhagfarn a gwahaniaethu. Maen nhw'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau a chymorth, gan gynnwys ymchwil, gweithgareddau, hyfforddiant a chyngor i gymunedau ledled gogledd Cymru. Maent yn hwyluso poblogaethau lleiafrifol i gael gwrandawiad i'w lleisiau drwy brosiectau allgymorth cymunedol a thrwy ymgysylltu â'r sector cyhoeddus. Mae cyrff cyhoeddus yn ymgynghori â'r Rhwydwaith ar faterion cydraddoldeb hil ac mae'r rhwydwaith yn cynnig cyngor a chymorth i awdurdodau lleol, gwasanaethau addysg, y bwrdd iechyd a'r heddlu ar draws y rhanbarth a thu hwnt. Mae ganddynt brofiad sylweddol

o ddatblygu a chynnal ymgynghoriadau yn eu gwaith eu hunain a galluogi cyrff cyhoeddus i ymgynghori'n effeithiol.

Ar sail papurau wedi'u hadolygu gan gymheiriaid, lluniodd y Rhwydwaith holiadur y gellid ei weinyddu ar-lein. Roedd yr arolwg yn casglu data demograffig a disgrifiadau naratif o'r materion a'r rhwystrau sy'n wynebu'r ymatebwyr. Casglodd y Rhwydwaith gyfanswm o 129 o ymatebion ac o'r rhain dadansoddwyd 90 o ymatebion dilys. Roedd y rhain yn cynnwys pobl o amrywiaeth eang (20+) o wahanol ethnigrwydd. Roedd yr adroddiad yn 52 tudalen gan gynnwys 24 tudalen o sylwadau naratif.

Race Council Cymru (Caerdydd a'r Fro)

Sefydlwyd Race Council Cymru (RCC) gan gymunedau lleiafrifoedd ethnig llawr gwlad fel corff ymbarél trosfwaol gyda'r nod o ddwyn mudiadau allweddol ynghyd i frwydro yn erbyn rhagfarn hiliol a gwahaniaethu hiliol. Mae RCC yn cynorthwyo a chynrychioli dros 250 o fudiadau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ledled Cymru i hybu integreiddio, ac eirioli dros gyfiawnder a chydraddoldeb hiliol. Mae RCC yn ymgysylltu â chymunedau llawr gwlad ac yn gweithio'n uniongyrchol â'r awdurdod lleol, cyrff llywodraethu a busnesau i hybu ymwybyddiaeth o anghydraddoldeb hil. Rydym yn gweithio i sefydlu a hwyluso sianeli cyfathrebu gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig a llawr gwlad ledled Cymru mewn cydweithrediad â Rhanddeiliaid Sylfaenol, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus a phreifat eraill o'r fath, ac ar ran y sefydliadau yma.

Er mwyn deall barn a phrofiadau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn Ninas a Sir Caerdydd a'r Fro, dosbarthodd RCC arolwg ar draws amrywiaeth o rwydweithiau lleol ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Datblygwyd yr arolwg mewn ymgynghoriad ag arweinwyr cymunedol llawr gwlad, ac roedd yn archwilio materion yn ymwneud â'r meysydd polisi a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu, gan gynnwys Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Chyflogaeth ac Incwm, Tai, Troseddu a Chyfiawnder, Diwylliant, Treftadaeth a Thwristiaeth ac Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth. Roedd yr arolwg yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau meintiol ac ansoddol, a gofynnwyd i'r cyfranogwyr hunan-nodi eu hethnigrwydd. Bu cyfanswm o 106 o bobl yn ddigon caredig i roi o'u hamser i lenwi'r arolwg, gan gynnwys pobl o dreftadaeth cymysg eu hil, Du, Du a Gwyn Caribïaidd, Indiaidd, Asiaidd ac Affricanaidd.

Race Council Cymru (Dinas a Sir Casnewydd)

Gwnaeth RCC hefyd geisio barn a phrofiadau pobl sy'n byw yn Ninas a Sir Casnewydd. Gan ddefnyddio'r arolwg a ddatblygwyd gan RCC mewn cydweithrediad ag arweinwyr cymunedol llawr gwlad, daeth RCC i gytundebau partneriaeth â chymunedau a mudiadau llawr gwlad ac unigolion Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, sy'n rhan o ganolfan amlddiwylliannol RCC yng Nghasnewydd. Gwnaeth cyfanswm o 97 o bobl lenwi'r arolwg. Gofynnwyd i gyfranogwyr yr arolwg hunan-nodi eu hethnigrwydd a chofnodwyd 8 ethnigrwydd gwahanol.

Race Council Cymru (Gogledd Cymru)

Er mwyn deall barn a phrofiadau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n byw yng Ngogledd Cymru, gweithiodd RCC gydag chymunedau a mudiadau llawr gwlad lleol ac

unigolion. Dosbarthwyd yr arolwg drwy amrywiaeth o rwydweithiau, gan gynnwys drwy Ganolfan Amlddiwylliannol RCC yng Ngoledd Cymru. Gwnaeth cyfanswm o 44 o bobl lenwi'r arolwg. Gofynnwyd i gyfranogwyr hunan-nodi eu hethnigrwydd a chofnodwyd 14 ethnigrwydd gwahanol.

Race Council Cymru (Dinas a Sir Abertawe)

Aeth RCC ati hefyd i geisio barn a phrofiadau pobl sy'n byw yn Ninas a Sir Abertawe. Gan ddefnyddio'r arolwg a ddatblygwyd gan RCC mewn cydweithrediad ag arweinwyr cymunedol llawr gwlad, daeth RCC i gytundebau partneriaeth â chymunedau a mudiadau llawr gwlad ac unigolion Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, sy'n rhan o ganolfan amlddiwylliannol RCC yn Abertawe. Gwnaeth cyfanswm o 109 o bobl lenwi'r arolwg. Gofynnwyd i gyfranogwyr hunan-nodi eu hethnigrwydd a chofnodwyd 25 ethnigrwydd gwahanol.

Race Council Cymru (Gorllewin Cymru)

Er mwyn deall barn a phrofiadau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n byw yng ngorllewin Cymru, gweithiodd RCC gydag unigolion a chymunedau a mudiadau llawr gwlad lleol. Dosbarthwyd yr arolwg drwy amrywiaeth o rwydweithiau, gan gynnwys drwy Ganolfan Amlddiwylliannol RCC yn Sir Gaerfyrddin a Gorllewin Cymru. Gwnaeth cyfanswm o 44 o bobl lenwi'r arolwg, gan gynnwys pobl o dreftadaeth Asiaidd Prydeinig, Hindŵaidd Indiaidd, Pwylaidd, a Phrydeinig Caribïaidd Cymysg.

Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani

Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani yw'r prif fudiad Romani a Theithwyr sy'n seiliedig yn y gymuned yng Nghymru. Mae'n defnyddio'r celfyddydau a diwylliant yn gyfrwng i eirioli a grymuso ymysg y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r Cwmni hefyd yn cynorthwyo unigolion i fod yn "Hyrwyddwyr Cymunedol", yn weithredwyr ac asiantau dros newid yn eu cymunedau eu hunain, gan wneud gwahaniaeth i'w hunain ac i'r gymdeithas ehangach.

Er mwyn casglu barn cymunedau y Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru aeth y Cwmni ati i ddatblygu a dosbarthu arolwg. Roedd yr arolwg yn archwilio profiadau a barn pobl ynglŷn â chydraddoldebau, polisïau a chynlluniau gweithredu, cynrychiolaeth a materion eraill, mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru. Gwnaeth cyfanswm o 60 o bobl gyfrannu eu barn a'u myfyrdodau ar draws y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru.

Panel Cynghori Is-Sahara

Mae'r Panel Cynghori Is-Sahara yn ceisio hyrwyddo a chryfhau lleisiau'r cymunedau Affricanaidd ar wasgar sy'n byw yng Nghymru. Drwy amrywiaeth o weithgareddau, mae'r panel yn ceisio ystyried a mynd i'r afael ag anghenion Grwpiau ar Wasgar yn eu gwaith datblygu rhyngwladol, a hwyluso gwybodaeth a sgiliau Grwpiau ar Wasgar yng Nghymru fel y gallant gynghori a chynorthwyo mudiadau Datblygu Rhyngwladol cynhenid Cymru.

Aeth y Panel ati i archwilio barn a safbwyntiau lleiafrifoedd ethnig gan ganolbwyntio'n benodol ar brofiadau dod o hyd i waith a pharhau mewn gwaith, ac effaith pandemig COVID-19. Er mwyn asesu effaith COVID-19 ar gyflogaeth ac incwm lleiafrifoedd ac ymfudwyr yng Nghymru, canolbwyntiwyd ar bedwar dangosydd gweithgarwch economaidd: newid mewn statws cyflogaeth, newid mewn oriau gweithio, anhawster talu biliau, a sefyllfa ariannol hunangofnodedig yn ystod y pandemig. Ymgysylltodd y Panel â chymunedau drwy gyfweliadau manwl, grwpiau ffocws ac arolwg dilynol. Cynhaliwyd cyfanswm o 19 o gyfweliadau a 2 grŵp ffocws. Darparwyd yr holiadur i'r holl gyfranogwyr a gyfwelwyd ac a fu'n rhan o grŵp ffocws, a'i lenwi ganddynt, ac roedd yn archwilio'n fanylach amrywiaeth o faterion y maent yn eu hwynebu.

TGP Cymru

Mae Tros Gynnal Plant Cymru (TGP Cymru) yn elusen sy'n gweithio ledled Cymru gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd i ddarparu amrywiaeth o gymorth gan gynnwys gwasanaethau eirioli i blant sy'n derbyn gofal, cymorth i ieuenctid digartref, ac arferion adferol gyda chyn-filwyr. Mae TGP Cymru hefyd yn cynnal gwasanaethau penodol sy'n cefnogi plant a theuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ogystal â phobl ifanc sydd â statws ceiswyr lloches neu ffoaduriaid.

Casglwyd barn y gymuned yn bennaf drwy gyfweliadau a sgyrsiau unigol a recordiwyd a'u hysgrifennu; cynhaliwyd y rhain gan staff y prosiect a wnaeth hefyd hwyluso ambell drafodaeth grŵp bach / grŵp ffocws yn benodol gyda phobl ifanc gan ddefnyddio amryw blatfformau ar-lein. Casglodd TGP Cymru farn cyfanswm o dros 70 o bobl rhwng 6 a 70 oed, ar draws Cymru gyfan; siaradwyd gyda 40 o ferched/menywod a 31 o fechgyn/dynion.

Women Connect First, Ymddiriedolaeth Menywod Hayaat a Sefydliad Henna

Aeth Women Connect First, Ymddiriedolaeth Menywod Hayaat a Sefydliad Henna , mewn cydweithrediad â MELA Cymru, ati i ddeall a dadansoddi safbwynt a phrofiad go iawn menywod Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn perthynas â chydraddoldeb hiliol yng Nghymru.

Cenhadaeth Women Connect First yw grymuso a gwella bywydau menywod a chymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig dan anfantais yn ne Cymru i'w helpu i gyflawni'u potensial llawn a chyfrannu'n gadarnhaol i'r gymdeithas yng Nghymru.

Mae Ymddiriedolaeth Menywod Hayaat yn hybu cynhwysiant cymdeithasol er budd cyhoeddus drwy weithio gyda menywod Affricanaidd sy'n byw yng Nghymru sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol oherwydd eu tarddiad ethnig neu rywedd, er mwyn diwallu'u hanghenion a'u cynorthwyo i integreiddio yn y gymdeithas. Gwneir hyn yn benodol drwy ddarparu gwybodaeth am iechyd a llesiant, cyngor, addysg a hyfforddiant i'w cynorthwyo a'u galluogi i gynyddu'u mynediad at wasanaethau iechyd a chlinigol o safon.

Mae Sefydliad Henna yn darparu gwasanaethau priodol yn bennaf i fenywod Mwslimaidd dan anfantais a'u teuluoedd fel y gallant oresgyn rhwystrau mewnol ac allanol a chyflawni'u nodau personol a'u dyheadau mewn bywyd. Nod Henna yw gwella cyfranogiad, lleihau sefyllfaoedd

lle mae pobl wedi'u hynysu ac ar y cyrion, a gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â'r heriau y mae'r teulu dynol yn eu hwynebu i adeiladu cymdeithas sifil gryfach sy'n sensitif i ffydd, ac yn seiliedig ar werthoedd cyfiawnder cymdeithasol, hawliau dynol a diogelwch.

Yn cynorthwyo'r gwaith ymgysylltu wedyn roedd MELA Cymru, menter gymdeithasol sy'n darparu platfformau ymgynghori digidol, offer ac atebion ymgysylltu hybrid i alluogi cymunedau amrywiol i fod yn rhan o ddatblygiadau sy'n effeithio ar eu cymdogaethau a'u bywydau.

Yn gynnar ym mis Awst 2020, aeth y bartneriaeth ati i ymgysylltu â menywod drwy wyth trafodaeth grŵp. Gwnaeth cyfanswm o 75 o fenywod gymryd rhan yn y sesiynau, gan gynnig disgrifiadau naratif manwl o brofiadau go iawn ar draws y meysydd polisi sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu. Yn y trafodaethau, defnyddiwyd golwg ryngblethol i archwilio'r perthnasoedd rhwng rhywedd, hil, oedran, a chefndir economaidd-gymdeithasol. Cyfrannodd menywod o amrywiaeth eang o gymunedau i'r ymchwil, gan gynnwys menywod o dreftadaeth Caribïaidd-Affricanaidd Cymreig, Indiaidd, Pacistanaidd, Algeraidd, Morocaidd, Somalïaidd, Swdanaidd, a Chymysg eu Hil.

wavehill™

social and economic research

ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711
wavehill@wavehill.com
wavehill.com